

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

YMDDIRIEDOLAETH  
ELUSENNOL YNYS MON  
ISLE OF ANGLESEY  
CHARITABLE TRUST

---

18 Ionawr/January, 2018

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr  
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **ddydd Mercher, 24 Ionawr 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 2.00 o'r gloch y.p.**, i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,  
*Dr Gwynne Jones*

**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee  
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Wednesday, 24 January, 2018 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 2.00 p.m.**, to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,  
*Dr Gwynne Jones*

**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary** : Dr. Gwynne Jones

**Trysorydd/Treasurer** : Mr. Marc Jones

Swyddfa'r Sir/County Offices,  
Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057

## R H A G L E N

### **1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### **2 COFNODION (Tudalennau 1 - 4)**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Rhagfyr, 2017.

### **3 CYMORTH POSIBL I DRIGOLION A BUSNESAU SYDD WEDI DIODDEF COLLEDION O GANLYNIAD I LIFOGYDD (Tudalennau 5 - 10)**

Cyflwyno adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

### **4 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17 (Tudalennau 11 - 32)**

Cyflwyno, i'w mabwysiadu, Adroddiad Blynyddol 2016/17.

### **5 CYLLIDEB 2018/19 (Tudalennau 33 - 36)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

### **6 MENTER MÔN - PROSIECT LEADER (Tudalennau 37 - 52)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

### **7 GRANT CARU AMLWCH (Tudalennau 53 - 54)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

### **8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 55 - 56)**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau alln y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### **9 GRANT MAWR - RHEILFFORDD GANOLOG MÔN CYF. (Tudalennau 57 - 98)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

### **10 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 99 - 100)**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

**“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### **11 NEWID PROSIECT- CYMUNEDAU GYNTAF MÔN (Tudalennau 101 - 102)**

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

## Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

### Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Rhagfyr, 2017

<b>YN BRESENNOL:</b>	T LI Hughes MBE (Cadeirydd)  R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R LI Jones, A M Jones, G O Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Shaun James Redmond, Dylan Rees, J A Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams
<b>WRTH LAW :</b>	Ysgrifennydd, Trysorydd.  <b>Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)</b>  Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Lewis Davies, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones a Ieuan Williams
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Neb

---

Etholwyd Mr Bob Parry OBE FRAGS yn Is-gadeirydd ar gyfer cyfarfod hwn yn unig gan fod yr Is-gadeirydd swyddogol wedi cyflwyno ymddiheuriad am absenoldeb.

#### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyniwyd Datganiad o Ddiddordeb fel a ganlyn:-

Datganodd Mr Vaughan Hughes ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – cais Cwmni Frân Wen.

Datganodd Mr R Meirion Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 Cwmni Frân Wen.

Datganodd Mr Dylan Rees ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 – cais Parc Chwaraeon Trefol Llangefni (Menter Gymdeithasol Llangefni).

Datganodd Mrs Nicola Roberts ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – cais Parc Chwaraeon Trefol Llangefni (Menter Gymdeithasol Llangefni).

#### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2017 fel rhai cywir.

#### 3 ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

##### Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017 fel rhai cywir.

#### 4 CYNNYDD A WNAED O RAN DYFARNU GRANTIAU MWY

Cyflwynwyd – adroddiad y Trysorydd ynghylch y broses ar gyfer dyfarnu grantiau mawr, gan gynnwys pennu lefel yr arian fydd ar gael a'r broses ar gyfer monitro grantiau a ddyfarnwyd i'r sefydliadau.

Dywedodd y Trysorydd bod 4 sefydliad wedi derbyn cymorth grant gan yr Ymddiriedolaeth yn 2016 a oedd yn werth cyfanswm o £230k ac y dilynwyd proses a oedd yn fwy ffurfiol yn 2017 gan estyn gwahoddiad agored i sefydliadau gyflwyno ceisiadau am gymorth. Derbyniwyd cyfanswm o 31 o geisiadau a bu 12 ohonynt yn llwyddiannus. Dyfarnwyd rhwng £10k a £50k i bob un ac roedd y cyfanswm a dyrannwyd yn £350k. Roedd adroddiad manwl yn ymhelaethu ar y cynnydd a waned mewn perthynas â phob prosiect wedi'i gynnwys fel eitem ar wahân ar y Pwyllgor hwn.

Nododd fod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau wedi argymhell yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2017, ar ôl ystyried perfformiad y portfolio buddsoddi dros y 12 mis blaenorol ac ar ôl ystyried y risgiau a'r angen i gynnal gwerth y gronfa ar lefel a oedd yn cynhyrchu digon o incwm blynyddol, y dylai'r swm sydd ar gael ar gyfer grantiau mwy barhau i fod yn £350k.

Cyfeiriodd Mr R Meirion Jones at y llifogydd eithafol i gartrefi a busnesau ar yr Ynys yn ddiweddar. Holodd a allai'r Ymddiriedolaeth sefydlu cronfa gymorth ar gyfer argyfyngau o'r fath. Gofynnwyd i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth ymchwilio a oedd yn briodol i'r Ymddiriedolaeth Elusennol sefydlu cronfa o'r fauth ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth.

Er eu bod yn cydymdeimlo â phreswylwyr yr Ynys sydd wedi dioddef llifogydd i'w cartrefi a'u busnesau, roedd rhai Aelodau yn ystyried nad oedd hynny'n swyddogaeth elusennol o fewn canllawiau'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

Yn dilyn trafodaethau pellach **PENDERFYNWYD :-**

- **Dyrannu grantiau mwy eto yn 2018 a bod yr SCE, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn adolygu a ddylid parhau i ddyfarnu grantiau mwy o 2019 ymlaen.**
- **Dyrannu swm o £350,000, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, i ariannu'r grantiau mwy yn 2018.**
- **Gwahodd ceisiadau ar unwaith gyda dyddiad cau o 31 Ionawr 2018 ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau.**
- **Bod y Pwyllgor Adfywio yn ystyried y ceisiadau a dderbynnir yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2018 a bod ei argymhellion yn cael eu hystyried gan yr Ymddiriedolaeth Lawn ar 17 Ebrill 2018.**
- **Gall sefydliadau sydd wedi derbyn cymorth ariannol yn y pum mlynedd flaenorol wneud ceisiadau ond ni fydd y fath geisiadau yn cael eu hystyried tan y bydd yr holl geisiadau eraill wedi cael sylw ac ar yr amod bod cyllid yn dal i fod ar gael.**
- **Gofyn i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol ymchwilio a yw'n briodol i'r Ymddiriedolaeth sefydlu cronfa i roi cymorth i breswylwyr yr Ynys sydd wedi cael llifogydd i'w cartrefi a'u busnesau'n ddiweddar ac i adrodd yn ôl i'r gyfarfod nesaf o'r Ymddiriedolaeth lawn.**

#### 5 DIWEDDARIAD AR STATWS Y GRANTIAU MAWR A DDYFARNWYD YN 2016 A 2017

Cyflwynwyd – adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â statws y grantiau mawr a ddyfarnwyd yn 2016 a 2017. Roedd rhestr o'r grantiau mawr a ddyfarnwyd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Dywedodd y Trysorydd bod cytundebau ariannu wedi'u sefydlu gyda'r holl brosiectau 'byw' lle mae arian cyfatebol wedi'i sicrhau ac eithrio'r Eisteddfod Genedlaethol. Cynhaliwyd ymweliadau ymgysylltu â'r holl brosiectau ac eithrio Cyngor Cymuned Llanfair ME. Cynhelir rhaglen o ymweliadau monitor dros oes y prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n iawn, bod cynnydd yn cael ei wneud ac y gellir dangos tystiolaeth lawn o wariant. Adroddodd ymhellach fod cynnydd gyda'r prosiectau cyfalaf wedi bod yn araf yn bennaf oherwydd problemau gyda sicrhau arian cyfatebol ond mewn rhai achosion mae'r cymorth gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi gweithredu fel sbardun ar gyfer sicrhau cyllid ychwanegol.

Trafododd yr Aelodau y meini prawf ar gyfer ariannu'r grantiau mwy mewn cryn fanylder ac yn benodol y cheisiadau sy'n ddibynnol ar sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill h.y. cyllid y Loteri Fawr. Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd y matrices sgorio yn ddigonol ar gyfer delio â cheisiadau o'r fath ac a oes angen cynnwys amod bod rhaid i gais fod mewn sefyllfa i fwrw ymlaen gyda'r prosiect ar unwaith heb ffynhonnell arall o arian. Roedd rhai Aelodau o'r farn bod y meini prawf a'r matrices sgorio presennol yn ddigonol ac y dylid adolygu'r sefyllfa o fewn blwyddyn.

Yn dilyn y broses bleidleisio **PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r adroddiad;**
- **Cynnwys meini prawf ynghylch y gallu i symud ymlaen yn y matrices sgorio.**

**Mr T LI Hughes  
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR</b>	YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL CYNGOR SIR YNYS MÔN
<b>DYDDIAD</b>	24 Ionawr, 2018
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	Cymorth posibl i drigolion a busnesau sydd wedi dioddef colledion o ganlyniad i lifogydd
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cynghori Ymddiriedolaeth Elusennol Cyngor Sir Ynys Môn ynghylch y posibilrwydd o sefydlu cronfa o'r Ymddiriedolaeth er mwyn cynorthwyo trigolion yr Ynys a ddioddefodd lifogydd yn eu cartrefi a'u busnesau.
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Ysgrifennydd – Ymddiriedolaeth Elusennol Cyngor Sir Ynys Môn
<b>GWEITHRED</b>	Bod Ymddiriedolaeth Elusennol Cyngor Sir Ynys Môn yn trafod ac yn derbyn yr argymhellion a gynigir.

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017, gofynnodd Ymddiriedolaeth Elusennol Cyngor Sir Ynys Môn [YECSYM] i'r Ysgrifennydd ymchwilio a yw'n briodol i'r Ymddiriedolaeth sefydlu cronfa er mwyn rhoi cymorth i drigolion yr Ynys sydd wedi dioddef llifogydd yn eu cartrefi a'u busnesau yn ddiweddar ac i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

## 2 GWEITHRED YR YMDDIRIEDOLAETH a DIBENION ELUSENNOL

2.1 Mae Atodlen B o Weithred yr Ymddiriedolaeth yn nodi y bydd Dibenion Elusennol yr Ymddiriedolaeth er lles cyhoeddus cyffredinol pobl sy'n byw yn y Fwrdeistref ac o fath a all fod yn Elusennol ac yn benodol, ond nid mewn modd sy'n cyfyngu ar gyffredinolrwydd yr uchod:

1. Darparu amwynderau a chyfleusterau ar gyfer lles cyhoeddus cyffredinol unigolion sy'n byw yn y Fwrdeistref a, heb gyfyngu ar gyffredinolrwydd yr uchod, gallai amwynderau ac adnoddau o'r fath gynnwys:
  - 1.1 Neuaddau cyhoeddus a neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol ac adnoddau cymunedol eraill, yn cynnwys canolfannau ac adnoddau o'r fath ar gyfer unigolion sy'n byw yn y Fwrdeistref sydd mewn grwpiau oedran penodol neu sy'n ddi-waith, yn sâl neu'n anabl.
  - 1.2 Cyfleusterau i hyfforddi unigolion sy'n byw yn y Fwrdeistref ar gyfer gwaith, masnach a phroffesiynau crefftus a lled-grefftus;
  - 1.3 Cyfleusterau ar gyfer cynorthwyo unigolion sâl sy'n byw yn y Bwrdeistref;
  - 1.4 Cymdeithasau a sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu adnoddau chwaraeon neu hamdden ac sydd ar gael yn gyffredinol ar gyfer pobl sy'n byw yn y Bwrdeistref;
  - 1.5 Ysgolion, grwpiau chwarae, eglwysi a chapeli sy'n gwasanaethu unigolion sy'n byw yn y Fwrdeistref; a
  - 1.6 Gwyliau celf, canolfannau celf, orielau celf, amgueddfeydd, theatrau a llyfrgelloedd sydd wedi eu lleoli yn y Fwrdeistref.
2. Sicrhau, er lles cyhoeddus cyffredinol sy'n byw yn y Fwrdeistref, cadwraeth adeiladau sydd o bwysigrwydd esthetig, hanesyddol, pensaernïol, adeiladol neu wyddonol.
3. Sicrhau cadwraeth a gwarchodaeth bod unrhyw dir neu eiddo arall yn y Fwrdeistref sydd o werth esthetig, hanesyddol neu wyddonol.
4. Gwarchod a diogelu'r amgylchedd a'r cefn gwlad a rheoli a lleihau llygredd yn y Fwrdeistref.

5. Noddi cyhoeddiadau a phrosiectau ymchwil addysgol y mae eu cynnwys neu eu canlyniadau (fel sy'n berthnasol) yn debygol o fod o fudd addysgol i aelodau'r cyhoedd sy'n byw yn y Fwrdeistref.

Mae'r Diben Elusennol cyntaf yn cyfeirio at amwynderau a chyfleusterau ar gyfer pobl Ynys Môn, mae'r ail a'r trydydd yn ymwneud â gwarchod tir ac adeiladau ar gyfer trigolion Ynys Môn ac mae'r pedwerydd yn gysylltiedig â gwarchod a diogelu'r amgylchedd. Mae'r pumed diben yn cyfeirio at gyhoeddiadau ac ymchwil addysgol.

Nid yw'r amcanion penodol (y Dibenion Elusennol) yn ymwneud ag ariannu mesurau atal llifogydd ac o'r herwydd byddai'n rhaid i YECSYM ddisgyn yn ôl ar y dibenion elusennol cyffredinol sydd yn ymwneud naill ai â lleddfu tloidi neu roi cymorth cymdeithasol i unigolion sydd ag anabledd neu sy'n dioddef amddifadedd.

Byddai'n rhaid i'r tloidi fod wedi'i achosi gan y llifogydd yn hytrach nag anawsterau neu aflonyddwch a grëwyd gan y llifogydd. Mae'r trothwy hwn yn uchel iawn. Mae'n ymwneud â lleddfu "tloidi" ac nid lleddfu "angen" yn unig ac mae'n annhebygol a fyddai modd bodloni'r trothwy hwnnw yn y rhan fwyaf (os nad yr holl) achosion. Mae hyn yn arbennig o wir mewn achosion lle mae'r dioddefwr yn debygol o fod wedi codi yswiriant yn wirfoddol i warchod rhag digwyddiad o'r fath neu fel amod ar gyfer sicrhau morgais.

O ran y cymorth i unigolion sy'n dioddef amddifadedd, byddai angen i'r unigolion fod mewn stad o amddifadedd eisoes a bod y llifogydd wedi achosi iddynt amddifadedd ar lefel llawer iawn uwch. Er nad oes angen darparu tystiolaeth o dlodi, mae'r prawf yr un mor feichus ac efallai y bydd yn anodd i'w sefydlu yn ymarferol.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r cafeat arferol, sef bod yn rhaid i unrhyw wariant gan YECSYM fod yn atodol at yn hytrach na disodli yr hyn a fyddai fel arall yn wariant statudol gan y Cyngor neu, fel yn yr achos hwn, gan gorff cyhoeddus arall.

- 2.2 Mae'r 'Meini Prawf (manylach) ar gyfer Dyrannu grantiau gan YECSYM' [Atodiad 1] yn nodi'r canlynol fel categorïau cymwys ar gyfer derbyn grantiau – sefydliadau hamdden, elusennol, diwylliannol a chrefyddol yn Ynys Môn. Mae'n nodi'n benodol na ddylid rhoi cymorth grant tuag at brynu eitemau o ddillad neu offer personol ar gyfer unigolion.

Byddai'n anodd, ac o bosib yn drafferthus ac yn feichus o safbwynt gweinyddol i ddyfeisio system ar gyfer cyflwyno ceisiadau, eu hasesu a dyfarnu'n gyfreithiol grantiau elusennol ar gyfer cynorthwyo tloidi neu amddifadedd a achosir gan lifogydd. Mae amheuaeth hefyd ai dyna fwriad YECSYM pan gafodd ei sefydlu oherwydd nad yw'n cael ei grybwyll fel Diben Elusennol yng Ngweithredoedd yr Ymddiriedolaeth.

- 2.3 Yn wyneb yr uchod mae'n anodd awgrymu sut y gellid defnyddio neu ddehongli'r Dibenion Elusennol a'r 'Meini Prawf ar gyfer Dyrannu grantiau gan YECSYM' i gyfiawnhau rhoi cymorth ariannol i drigolion neu fusnesau'r Ynys sydd wedi dioddef llifogydd.

### 3. ARGYMHELLION

- 3.1 Bod YECSYM yn derbyn nad yw'r Dibenion Elusennol a nodir yng Ngweithredoedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys y posibilrwydd o ddarparu cymorth ariannol i drigolion neu fusnesau'r Ynys sydd wedi dioddef llifogydd.

Amgaeedig: Meini Prawf ar gyfer Dyrannu Grantiau gan YECSYM



**YR AMODAU AR GYFER DOSBARTHU  
GRANTIAU O YMDDIRIEDOLAETH  
ELUSENNOL YNYS MÔN**

**gan gynnwys amodau penodol ar gyfer grantiau  
tuag at waith cyfalaf a chyfleusterau cymuned**

**1. Y RHEINI FEDR HAWLIO GRANT AC  
AMODAU'R CYMORTH**

- a) Rhoddir cymorth ariannol i fudiadau adloniadol, elusennol, diwylliannol a chrefyddol ar Ynys Môn.
- b) Ni roddir grantiau tuag at waith ar adeiladau capeli neu eglwysi sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer addoliad, neu ddefnydd enwadol.
- c) Ni chaiff cais ei ystyried oni bai bod y mudiad wedi cyflwyno'r cyfrifon perthnasol ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano o bryd i'w gilydd.
- ch) Rhaid amgau o leiaf dau bris gwahanol gydag unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith adeiladu neu brynu offer.
- d) Ni ystyrir ceisiadau fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddia cau.
- dd) Dyrennir grantiau ar sail statws TAW yr ymgeisydd, h.y. os bydd yr ymgeisydd yn gallu adennill y TAW, yna ni fydd y grant yn cynnwys hynny. Os yw'r ymgeisydd yn cael grant ar y sail nad yw'n gofrestredig ar gyfer TAW ond eu bod ar ôl cael y grant yn cael eu cofrestru ar gyfer TAW ac yn gallu adennill y TAW mewn perthynas â'r grant, yna bydd angen rhoi gwybod i Drysorydd yr Ymddiriedolaeth a bydd rhaid talu'r TAW yn ôl i'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

**CRITERIA FOR THE ALLOCATION OF  
GRANTS FROM THE ISLE OF ANGLESEY  
CHARITABLE TRUST**

**including specific requirements for grants towards  
capital works and revenue support**

**1. ELIGIBLE CATEGORIES FOR RECEIPT OF  
GRANT AND CONDITIONS THEREOF**

- a) Financial assistance will be available to assist recreational, charitable, cultural and religious organisations in Anglesey.
- b) Grants will not be given towards work on buildings of churches or chapels which are used for worship or for denominational purposes.
- c) No application shall be considered unless the organisation has supplied the relevant accounts and other information which will be required from time to time.
- ch) All applications involving structural work or purchase of equipment must be accompanied by at least two estimates.
- d) No application for assistance shall be considered after the last date for receipt of applications.
- dd) Grant awards will be made on the basis of the VAT status of the applicant i.e. where VAT can be reclaimed by the applicants it will not be covered by the grant award. If the applicant is awarded grant funding on the basis of not being VAT registered but subsequent to this they become VAT registered and are able to reclaim the VAT relating to the grant award, this will need to be notified to the Treasurer of the Charitable Trust and the VAT will become repayable to the Charitable Trust.

## 2. GRANTIAU CYFALAF

- a) Ni ddylid neilltuo dim dan bennawd yr hyn sydd ar gael i wneud gwaith cyfalaf oni bai bod y swm a neulltuir ynghyd ag unrhyw arian arall fo ar gael, yn ddigon i gwblhau'r cynllun o fewn cyfnod amser rhesymol na fydd yn hwy na'r cyfnod a nodir yn (ch) isod.
- b) Ni ystyrir unrhyw gais am gymorth o unrhyw gronfa petai'r gwaith y gwneir y cais amdano eisioes wedi cychwyn.
- c) Ni chaiff deisyfiad am ganiatâd i ddechrau gwaith cyn cyflwyno cais am ddyraniad gael ei ystyried oni bai fod swyddog priodol o'r Cyngor wedi tystiolaethu fod argyfwng pendant yn bodoli, a phan fod caniatâd yn cael ei roi, ni chaiff hyn ei ddehongli fel bod yn rhwymedig ar yr Ymddiriedolaeth i wneud dyraniad pan fydd y ceisiadau am ddyraniadau yn cael eu hystyried.
- ch) Rhaid cwblhau cynllun cyfalaf o fewn 4 blynedd i ddyddiad dyfarnu'r grant. Bydd unrhyw swm heb ei ddefnyddio ar ôl pedair blynedd yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth.
- d) Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos fod y cynllun yn cwrdd â gofynion technegol y Cyngor Sir.
- dd) Pan fod angen caniatâd cynllunio, rhaid i'r ymgeiswyr wneud yn siwr bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi.
- e) Rhaid i'r gwaith fod yn 'agored' fel bo modd i gynrychiolwyr y Cyngor Sir ei archwilio pryd bynnag y dymument.
- f) Rhaid sicrhau fod y llyfrau a'r cyfrifon ynghylch y gwaith ar gael i gynrychiolwyr y Cyngor Sir gael golwg arnynt, pe dymument wneud hynny.
- ff) Bod prawf gwirioneddol o anghenion ariannol a chymdeithasol am y cyfleusterau a bod cefnogaeth leol i'r cais a bod maint a natur y gefnogaeth yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Sir.

## 2. CAPITAL GRANTS

- a) No allocation shall be made under the Allocations for Capital Works unless the sum allocated, together with monies available, is sufficient to complete the scheme within a reasonable period and no later than the period stipulated in (ch) below.
- b) No application for assistance from any allocation shall be considered if the work in respect of which the application is made has already started.
- c) Any request for permission to commence work in advance of submission of an application for an allocation shall not be considered unless it is certified by the appropriate officer of the Council that an emergency clearly exists, and where permission is granted, this shall not be construed as binding upon the Trust to make an allocation when the application for an allocation is considered.
- ch) The completion of any capital scheme shall be within 4 years from the year of allocation of the grant. Any allocation remaining unused at the end of 4 financial years will be transferred back to the Trust Fund.
- d) Applicants must show that the scheme meets the technical requirements to the satisfaction of the County Council.
- dd) Applicants must ensure that planning permission has been obtained, where necessary.
- e) The work must be open at any time for inspection by the County Council's representatives.
- f) The books and accounts relating to the work must be made available, if required for examination by the County Council's representatives.
- ff) That there is an assessed financial and community need and local support for the grant requested exists and that the extent and nature of the assistance will be decided by the County Council.

- g)** Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas/corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sy'n o leiaf 21 mlynedd.

Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth.

- ng)** Bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos y gallent gwrdd â'r costau cynnal am o leiaf dair blynedd ar ôl dosbarthu'r cymhorthdal (gan ystyried unrhyw grantiau sydd ar gael).
- h)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud o'r cyfleusterau a ddarperir.
- i)** Rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd ag unrhyw wahaniaeth rhwng y grant a chostau'r cynllun wrth fodd y Cyngor Sir ac o fewn 12 mis i dderbyn y cynnig amodol o grant.

- g)** When necessary, that the applicants (the community/body) have proof of tenure on the land or building for which the grant is being requested and that tenure should normally be for a period of not less than 21 years.

In respect of portable accommodation, proof of tenure for seven years will be considered sufficient.

In respect of sports fields, established use of a period of ten years or more will be accepted instead of proof of tenure.

- ng)** That the application can show that the project can be financially maintained by the applicant for at least a three year period following the allocation of the grant (taking into account the availability of any grants).
- h)** Applicants must show that there will be optimum community use of the facilities provided.
- i)** Any shortfall in financing the project will be met by the applicants concerned to the satisfaction of the County Council within 12 months of the provisional offer of grant aid being made.

**5. CATEGORIAU NA CHÂNT EU 5. INELIGIBLE CATEGORIES**  
**HYSTYRIED**

**a)** Ni ellir ystyried tai capel, ficerdai nac adeiladau cyffelyb.

**a)** Chapel houses, vicarages and other like buildings will be ineligible for assistance.

<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>	
<b>Pwyllgor :</b>	<b>Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>24 Ionawr 2018</b>
<b>Teitl yr Adroddiad :</b>	<b>Adroddiad Blynyddol 2016/17</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad :</b>	<b>I gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft i'w Mabwysiadu</b>
<b>Adroddiad Gan :</b>	<b>Trysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn</b>
<b>Gweithrediad :</b>	<b>Mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac awdurdodi eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau</b>

Mae'r archwiliad o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft ar gyfer 2016/17 wedi eu cwblhau ac, felly, fe'u cyflwynir i'w mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Gwahoddir yr Ymddiriedolaeth Elusennol i fabwysiadu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a gyflwynir, ac i awdurdodi Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i arwyddo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon â'r llythyr o gynrychiolaeth yr archwiliad.

**R MARC JONES  
 TRYSORYDD –  
 YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

**17 IONAWR 2018**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**  
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**2016/2017**

**ANNUAL REPORT**

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn / Isle of Anglesey Charitable Trust  
Swyddfa'r Sir / County Offices  
LLANGFN  
Ynys Môn  
LL77 7TW

## **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Cofrestredig : 1000818

### **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17**

#### **GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL**

##### **GWEITHRED YMDDIRIEDOLAETH**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif Elusen Gofrestredig 1000818) ar 5 Mehefin 1990 ac mae Gweithred Ymddiriedolaeth gyda'r dyddiad hwn arni yn nodi dyletswyddau, pwerau ac amodau y bydd raid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio gyda nhw.

##### **YMDDIRIEDOLWR**

Unig Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn. Y rhai mewn swydd oedd:-

- |              |   |   |
|--------------|---|---|
| Cadeirydd    | - | Thomas Victor Hughes  |
| Is-Gadeirydd | - | Trevor Lloyd Hughes   |
| Ysgrifennydd | - | Prif Weithredwr Y Cyngor:<br>Dr William Owen Gwynne Jones                       |
| Trysorydd    | - | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog A151 y Cyngor:<br>Marc Jones          |
| Cyfreithiwr  | - | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro y<br>Cyngor: Lynn Ball |

## CYNGHORWYR

Y rhain oedd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2016/17:-

Bancwyr	:	HSBC Cyf Stryd Fawr Llangefni LL77 7LU
Archwilwyr	:	Y Mri W.J.Matthews a'i Fab Cyfrifwyr Siartredig 11 - 15 Y Bont Bridd Caernarfon LL55 1AB
Rheolwyr Buddsoddi:		HSBC Private Bank (UK) Limited 78 James's Street Llundain SW1A 1JB

## **STRWYTHUR LLYWODRAETHU A RHEOLI**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, rhagflaenydd i'r Cyngor Sir, i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gyda'r arian a roddwyd i'r Cyngor pryd yr oedd Shell (UK) Ltd yn rhoi'r gorau i weithio'r Lanfa Olew ym Môn. Rhoddwyd yr arian hwn gan Shell (UK) Ltd dan Ddeddf Seneddol breifat - Deddf Glanfa Môn 1972, sef deddf a oedd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor "i ddefnyddio'r arian yn un swydd er lles Ynys Môn neu ei thrigolion".

Mae gan y Cyngor Sir 30 Aelod etholedig sydd, ar gyfer gweithredu fel Ymddiriedolwr, yn cyfarfod ar wahân i'w cyfarfodydd fel awdurdod lleol. Mae Aelodau etholedig newydd yn cael eu briffio ar amcanion ac ar sut y gweinyddir yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir yr holl Aelodau etholedig gan swyddogion y Cyngor, sy'n derbyn hyfforddiant rheolaidd fel rhan o'u swyddi. Cynhelir cyfarfodydd llawn, fel Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ar bolisi ac ar wariant am y flwyddyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol dri phwyllgor, gyda phob Aelod o'r Cyngor yn aelod o un ohonynt (a Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn aelodau ex officio o bob un):-

Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, oedd a deg o aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth trwy'r ymgynghorwyr buddsoddi, am faterion ynglŷn â'r eiddo sydd ym mherchenogaeth yr Ymddiriedolaeth ac am faterion cytundebol eraill.

Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'n penderfynu ar raglen grantiau blynyddol a gyllidir o gyllideb refeniw'r Ymddiriedolaeth Elusennol a benderfynir gan y corff llawn a'i ddirprwyo i'r Pwyllgor hwn.

Pwyllgor Adfywio, oedd a deg aelod yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn penderfyniad i neilltuo cyllid at amcanion adfywio, mae'r Pwyllgor Adfywio yn penderfynu ar grantiau adfywio ac yn monitro cynnydd ar gynlluniau adfywio.



Mae Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac, ar adegau, swyddogion eraill y Cyngor Sir, yn rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ei gyfarfodydd. Ychydig o benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo iddynt.

Mae gweithgareddau dyddiol, fel y'u cymeradwyir gan yr Ymddiriedolaeth, yn cael eu gweinyddu ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae rhai nodweddion y broses ceisio am grant yn gyffredin i'r Ymddiriedolaeth hon a chronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor Sir er mwyn hwyluso'r broses i ymgeiswyr. Nid yw'r Cyngor yn codi am wasanaethu i'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r risgiau sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel sydd wedi eu hadnabod gan yr Ymddiriedolwr, wedi eu hadolygu, a sefydlwyd systemau neu gweithdrefnau i leihau'r risg.

### **AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

Cyfyngir amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth i les cyhoeddus a chyffredinol y bobl hynny sy'n byw ar Ynys Môn, yn cynnwys:-

darparu mwynderau a chyfleusterau;  
cadwraeth adeiladau;  
cadwraeth a gwarchodaeth tir;  
gwarchod a diogelu'r amgylchedd.

Cyrhaeddir y nod hwn trwy gyfrannu tuag at wario ar wasanaethau er lles y cyhoedd a thrwy roddi grantiau i gyrrff elusennol a gwirfoddol.

Mae'r cyfyngiadau ar ddulliau rhedeg yr Ymddiriedolaeth wedi eu nodi yn y Weithred Ymddiriedolaeth. Y prif bwerau yw hybu amcanion elusennol a gwneud trefniadau i bwrpas rheoli a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth fel y tybir yn addas.

Mae gwaddol gan yr Ymddiriedolaeth, y gellid ei wario ar yr amod bod dwy ran o dair o'r aelodau yn cymeradwyo penderfyniad i'r perwyl. Mae wedi mabwysiadu amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant. Mae'r incwm buddsoddi yn cyllido rhan o gostau rhedeg Oriol Ynys Môn a rhaglen grantiau blynyddol.

### **POLISI DYRANNU GRANTIAU**

Dyrennir grantiau o'r incwm buddsoddi blynyddol i elusennau, mudiadau gwirfoddol a chyrrff lleol eraill ar gyfer prosiectau ar Ynys Môn. Mae rhain ar gyfer grantiau bach (llai na £8,000) ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahoddi am geisiadau gyllid, unwaith yn y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Cyllidir grantiau mwy, hefyd, o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau a ddelir. Y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau sy'n penderfynnu'r gwerth i'w dyrannu yn seiliedig ar berfformiad y gronfa yn y blwyddyn blaenorol a'r perfformiad rhagwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dyrennir y grantiau mwy (dros £8,000) i sefydliadau sy'n cwrdd a dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahoddi am geisiadau gyllid, unwaith yn y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Gwneir dyraniadau yn flynyddol i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychain);  
Neuaddau Pentref (costau rhedeg blynyddol);  
Grantiau bach (grantiau bychain unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn llai na £8,000);  
Grantiau mawr (grantiau mawr unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn fwy na £8,000).

## **POLISI YNGLŶN Â'R ARIAN WRTH GEFN**

Canlyniad y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd yn 2009 yw nad oes angen rhagor ar arian wrth gefn cyfalaf ar wahân, heblaw i adnabod ymrwymadau hanesyddol. Oherwydd gall rhai o'r ymrwymadau ariannol cael ei wneud dros gyfnod o fwy nag un flwyddyn ariannol, mae'r arian wrth gefn cyffredinol yn cael ei alluogi i fynd i ddiffyg ar yr amod fod llif arian yn ei ddod yn ôl i warged erbyn bydd yr ymrwymiad yn cael ei anrhydeddu'n llawn.

Mae'r Ymddiriedolwr yn ystyried fod lefel gyfredol yr arian wrth gefn yn ddigonol i ddarparu incwm buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer taliadau grant a hefyd ar gyfer costau cefnogi llywodraethu.

## **CYFLAWNI A PHERFFORMIAD**

Rhodddwyd grantiau i 64 o gyrrff gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt ac y mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn ffynhonnell bwysig o gyllid i elusennau lleol a chyrrff chwaraeon a rhai gwirfoddol.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gyllido Oriol Ynys Môn sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor Sir.

Yn ystod y flwyddyn, roedd Oriol Ynys Môn ar agor 362 diwrnod, gan gyrraedd ei darged ar gyfer dyddiau agor.

Yn ystod y flwyddyn, ddaru'r Oriol:-

- Ddenu 83,331 o ymwelwyr, gostyngiad o 6.35% ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol o 88,984;
- Gynnal 8 arddangosfa gyfoes fawr, 4 arddangosfa gelf gyfoes bach (Oriol Hir) a 5 arddangosfa gelf hanesyddol (Oriol Kyffin & Oriol Tunncliffe);
- Gynnal 2 arddangosfa amgueddfa;
- Gynnal 20 o weithgareddau plant a theuluoedd;
- Gynnal 28 ymweliad addysgiadol;
- Gynnal 1 diwrnod ymgynghori gyda athrawon;
- Roi 3 sgwrs yn y gymuned am yr Oriol a'r casgliadau;
- Gynnal 28 o weithgareddau ar gyfer oedolion;
- Gynnal 9 sgwrs y tu ôl i'r llenni;
- Dderbyn 76 ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â'r casgliadau; a
- Gweithio hefo 41 o bartneriaid, lleol a chenedlaethol yng Nghymru a thrwy gydol Prydain, ar wahanol lefelau i ehangu a datblygu enw da'r Oriol a phroffil Ynys Môn.

Yn ychwanegol, eto eleni mae wedi cael y Wobr Cynllun Sicrhau Ansawdd i Atyniadau Ymwelwyr Cymru (rhoddwyd gan Visit Wales) gyda sgor uwch o 82%.

## **PERFFORMIAD BUDDSODDI**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bwerau buddsoddi eang sy'n cynnwys prynu stociau, cyfranddaliadau, gwariannau ac eiddo o bob math pa un a ydynt yn cynhyrchu incwm ai peidio â beth bynnag fo'r risgiau cysylltiedig. Disgrifir y bwerau hyn yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

Mae'r perfformiad hyd yma yn erbyn yr amcan tymor-hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant, wedi ei glandro heb gynnwys gwerth y tir, fel a ganlyn:-

Ers 1990: Targed: £17.184m Gwerth ar 31/03/17: £21.581m, sef £4.397m uwchlaw'r targed.

## **Incwm Buddsoddiadau**

Targed : £420,000 Cyflawni : £610,711, sef £190,711 uwchlaw'r targed.

## **Perfformiad i'w gymharu â'r meincnod**

Y strategaeth gytunedig ar gyfer y tymor canol yw ychwanegu 1% y.f. uwchben y meincnod dros gyfnod treigl 3 blynedd, gyda'r meincnod dilynol ar gyfer dyrannu asedau:-

Ecwitiâu'r DU	27.0%
Ecwitiâu Tramor	41.0%
Llog Sefydlog	24.0%
Eraill	7.0%
Arian Parod	1.0%

Nid oes yna ffi yn gysylltiedig â pherfformiad ond mae yna ffi gyson o 0.25% yn cael ei godi, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

## **ADOLYGIAD ARIANNOL**

Roedd yr incwm buddsoddi gros a ragwelwyd am y flwyddyn yn £420,000. Ar ei diwedd, roedd yr incwm buddsoddi yn £611,711 (2015/16: £585,561). Yn ychwanegol, cynyddodd buddsoddiad portffolio mewn gwerth o £2.693m dros y flwyddyn.

Roedd y gyllideb refeniw am y flwyddyn yn caniatáu dyrannu grantiau o £770,996 (£737,766 yn 2015/16).

## **DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Ar gyfer 2017/18, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth y dyfarniadau grant canlynol o fewn y categorïau blynyddol arferol:-

- Cyfleusterau Cymunedol: £125,000;
- Neuaddau Pentref: £80,000;
- Oriel Ynys Môn: £ 215,000; a
- Chyngor Sir Ynys Mon – Cyfraniad at gcyflogau swyddogion: £30,000.

Yn ychwanegol i'r uchod, gwnaed y dyfarniadau grant isod gan yr Ymddiriedolaeth :-

- Canolfan Ucheldre - £30,000;
- Meddwl Ynys Mon & Gwynedd - £20,000;
- Rheilffordd Ganolog Môn Cyf. - £25,000;
- Canolfan Hamdden Biwmaris - £45,000;
- Cwmni Tref Llangefni - £25,000;
- Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf - £10,000;
- Clwb bocsi Caerdybi - £20,000;
- Cadetiaid Mor Caerdybi - £20,000;
- Cyngor Tref Caerdybi - £50,000;
- Neuadd Pentef Llanddona - £45,000;
- Medwrn Môn - £25,000; and
- Cymunedau'n Gyntaf Môn - £35,000.

## **CYNLLUNIAU I'R DYFODOL**

Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol yn 2018/19.

## **DATGANIADAU CYLLIDOL**

Mae'r datganiadau cyllidol wedi eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau (FRS102), ac maent yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a chyfraith berthnasol.

Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ar 24 Ionawr 2018 rhoddwyd cymeradwyaeth i Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr ac i'r Cyfrifon sy'n ymddangos ar dudalennau 9 i 18.

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar 24 Ionawr 2018**

**a llofnodwyd ar ei ran gan: .....**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig: 1000818

**DATGANIAD AR WEITHGAREDDAU CYLLIDOL DROS Y FLWYDDYN A DDARFU AR  
31 MAWRTH 2017**

<u>2015/16</u> £	<u>Adnoddau i mewn</u>	<u>NODYN</u> £	<u>Y GRONFA</u> <u>GYFFREDINOL</u> £	<u>Y GRONFA</u> <u>GYFALAF</u> £	<u>CYFANSWM</u> £
584,688	<u>Incwm Buddsoddi</u> - Difidend a llog sefydlog ar fondiau		570,623	-	570,623
873	- Llog		40,088	-	40,088
585,561		2	610,711	-	610,711
-	Rhent Tir		-	-	-
420	Incwm arall		-	508	508
585,981	<b>Cyfanswm Adnoddau i mewn</b>		610,711	508	611,219
	<u>Adnoddau wedi eu gwario</u>				
43,489	Costau Cynhyrchu Cronfeydd	3	60,016		60,016
32,343	Costau Rheoli Buddsoddiadau		19,889		19,889
75,832	Costau Cyfreithiol a Marchnata		79,905		79,905
	<b>Cyfanswm costau cynhyrchu cronfeydd</b>				
<b>510,149</b>	<b>Adnoddau net i mewn ar gael ar gyfer gwariant elusennol</b>		<b>530,806</b>	<b>508</b>	<b>531,314</b>
	<u>Gweithgareddau Elusennol</u>				
	Grantiau er hyrwyddo amcanion yr Elusen	5			
215,000	- Cyngor Sir Ynys Môn – Oriol Ynys Môn		215,000	-	215,000
182,766	- Cyrff Cymunedol a Gwirfoddol		165,996	-	165,996
340,000	- Grantiau Mawr		-	390,000	390,000
-	Llai Grantiau heb eu hawlio		(10,376)	-	(10,376)
737,766	<b>Cyfanswm cost Grantiau a Gweithgareddau</b>		370,620	390,000	760,620
	<u>Llywodraethu</u>				
8,110	Ffioedd a Chostau	6	36,671	-	36,671
<b>745,876</b>	<b>Cyfanswm Gwariant Elusennol</b>		<b>407,291</b>	<b>390,000</b>	<b>797,291</b>
<b>821,708</b>	<b>Cyfanswm Adnoddau wedi eu gwario</b>		<b>487,196</b>	390,000	<b>877,196</b>
<b>(235,727)</b>	<b>Adnoddau Net i mewn</b>		<b>123,515</b>	<b>(389,492)</b>	<b>(265,977)</b>
	<u>Enillion a Cholledion Eraill</u>				
(725,551)	Enillion/(colledion) o ganlyniad i ailbrisiant a gwerthiant asedau buddsoddi	14	-	3,033,174	3,033,174
(961,278)	<b>Symudiadau Net o Gronfeydd</b>		<b>123,515</b>	2,643,682	2,767,197
20,030,889	<b>Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill</b>		(206,368)	19,275,979	19,069,611
<b>19,069,611</b>	<b>Cronfeydd a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth</b>		<b>(82,853)</b>	<b>21,919,661</b>	<b>21,836,808</b>

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

**Y FANTOLEN FEL AR 31 MAWRTH 2017**

<u>2016</u> £		<u>NODYN</u>	£	£
17,193,254	<b><u>Asedau Sefydlog</u></b> Buddsoddiadau	8		22,349,055
17,193,254				22,349,055
44,205	<b><u>Asedau Cyfredol</u></b> Dyledwyr ac Incwm wedi ei gronni	9	72,021	
2,759,836	Arian yn y Banc		3,077	
2,804,041				75,098
(549,673)	<b><u>Ymrwymadau</u></b> : Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	10	(39,213)	
(378,011)	Credydwyr	11	(548,132)	
(927,684)	Grantiau heb eu talu			(587,347)
<b>1,876,357</b>	<b>Yr Asedau / (Ymrwymadau) Cyfredol Net</b>			<b>(512,247)</b>
<b>19,069,611</b>	<b>Yr Asedau Net</b>			<b>21,836,808</b>
	<b><u>Cronfeydd</u></b>	12		
(206,368)	Cronfeydd heb eu			(82,853)
19,276,507	Cyfyngu			22,310,189
(528)				(390,528)
<b>19,069,611</b>				<b>21,836,808</b>

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

**DATGANIAD LLIF ARIAN 31 MAWRTH 2017**

	NODYN	2017 £	2016 £
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredu:</b>	<b>15</b>	<b>(1,245,349)</b>	<b>(656,985)</b>
<b>Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yn) gweithgareddau gweithredu</b>			
Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau		561,564	548,510
Elw o werthu asedau		-	2,916,623
Elw o werthu buddsoddiadau		9,680,353	10,559,789
Prynu buddsoddiadau		<u>(11,445,637)</u>	<u>(10,746,264)</u>
		(1,203,720)	3,278,658
<b>Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yng) ngweithgareddau buddsoddi</b>		<b>(1,203,720)</b>	<b>3,278,658</b>
<b>Newid yn yr arian a chywerth arian yn y cyfnod adrodd</b>		<b><u>(2,449,069)</u></b>	<b><u>2,621,673</u></b>
<b>Arian a chywerth arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd</b>		3,073,031	451,358
<b>Newid yn yr arian a chywerth arian yn y cyfnod adrodd</b>		(2,449,069)	2,621,673
<b>Arian a chywerth arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>		<b>623,962</b>	<b>3,073,031</b>

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar 24 Ionawr 2018

a llofnodwyd ar ei ran gan .....

## NODIADAU I'R DATGANIADAU CYLLIDOL

### 1. POLISIÄU CYFRIFO

- (a) **Sail Cyfrifo:** Darparwyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir, sy'n berthnasol i elusennau sy'n darparu eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac Iwerddon (FRS 102) (effeithiol o 1 Ionawr 2015) – (SORP Elusennau (FRS102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Du ac Iwerddon (FRS102) a gweithred yr Elusen a'r gyfraith berthnasol.

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cwrdd â diffiniad FRS102 o endid buddiant cyhoeddus. Cofnodi'r asedau a rhwymedigaethau yn y cyfrifon ar gost hanesyddol heblaw y cawsant eu hail-ddatgan yn unol â pholisi cyfrifo perthnasol.

- (b) **Cysoni ag Arferion Cyfrifo a dderbynnir ynggyffredinol (GAAP) :** Wrth ddarparu'r cyfrifon yma, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried a oedd angen ail-ddatgan eitemau cymharol pan yn cymhwyso'r polisiau cyfrifo ys'n angenrheidiol gan FRS102 a SORP Elusennau FRS102. Ni ystyriwyd fod angen ail-ddatgan unrhyw eitem gymharol.

- (c) Mae'r **grantiau sy'n daladwy** yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r dyraniad wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a phan mae unrhyw amod a roddwyd ar y cyllid wedi ei gyflawni.

- (ch) Mae'r **incwm buddsoddiadau** yn gynnwysedig yn y cyfrifon:-
- am adneuo'n tymor byr a balansau ar sail Gronedig ddyddiol;
  - am ecwiti - pan gyhoeddir stoc fel cyn-rhandal;
  - am renti – yn y flwyddyn y mae'n codi;
  - am gronfeydd cyfun ac incwm arall, pan dderbynnir yr incwm.

Mae'r elfen gyffredin o'r stoc a dderbynnir yn lle difidend arian parod yn cael ei thrin fel incwm i'r gronfa.

- (d) **Gwariant:** Cynhwysir gwariant ar sail Gronedig. Mae costau wedi eu rhannu i gategoriâu pwrpasol yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol. Costau cynhyrchu incwm yw'r costau hynny sy'n codi'n uniongyrchol o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi a chostau rheoli'r portffolio buddsoddiadau a chodi incwm buddsoddiadau.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys grantiau i gyrff gwirfoddol a lleol a chyfraniadau i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi cynnwys gwariant uniongyrchol ar adeilad hanesyddol ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Codir y rhain yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i gynnig grant. Lle mae cyrff wedi cael eu hysbysu o friad i gynnig grant yn y dyfodol, nodir hynny heb eu cronni yn y cyfrifon.

Mae rheoli a gweinyddu yn cynnwys taliadau i drydydd partion yn ymwneud a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.



**(dd) Buddsoddiadau:** Mae buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi eu prasio yn ôl pris canolog y farchnad ar gau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen, ar wahân i fuddsoddiadau cyfun sydd wedi eu prasio yn ôl y pris bidio.

Mae enillion neu golledion o werthu neu ailbrasio buddsoddiadau yn cael eu codi ar neu eu rhoi ar gredyd yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol.

**(e) Eiddo Buddsoddi:** Gweler nodyn 7 i'r cyfrifon.

**(f) Cronfeydd:** Rhoddir eglurhad o natur a phwrpas pob cronfa yn nodyn 12.

**(ff)** Darparu'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol : Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn fod gan yr elusen ddigon o arian wrth gefn a bod yr elusen yn fusnes weithredol.

**(g)** Newid i FRS102 : Newidiodd yr endid o Egwyddorion Cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU i FRS102 ar 1 Ebrill 2015. Nid oedd angen unrhyw addasiad i'r balansau arian agoriadol ar ddyddiad y newid.

## 2. INCWM BUDDSODDI

Daw'r cyfan bron o incwm yr Ymddiriedolaeth o fuddsoddiadau yn nwylo'r Rheolwyr Buddsoddi. Mae eu ffioedd yn amodol ar berfformiad y buddsoddiadau ac mae incwm yn cael ei ragamcanu yn net o ffioedd. Roedd cyfanswm incwm ar fuddsoddiadau (heb gynnwys rhenti tir) yn 2016/17 yn £610,711 (£585,561 yn 2015/16).

## 3. COSTAU CYNHYRCHU'R CRONFEYDD

Rhain yw costau rheoli'r eiddo buddsoddi a'r ffi i'r Rheolwyr Buddsoddi.

	2016/17 £	2015/16 £
Ffi'r Rheolwyr Buddsoddi	60,016	43,489
Costau Cyfreithiol	19,889	-
Costau Marchnata yn ymwneud â'r gwerthiant arfaethedig o'r tir yn Rhosgoch	-	32,343
	79,905	75,832

Mae'r gost o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi yn dod o'r Gronfa Gyfalaf. Codir rhan gyntaf o ffi'r Rheolwyr Buddsoddi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ac unrhyw gost ychwanegol am berfformiad gwell na'r cyffredin, £dim ar gyfer 2016/17 (2015/16: £nil), yn erbyn y Gronfa Gyfalaf.

## 4. CYDNABYDDIAETH YMDDIRIEDOLWR A THRAFODION CYFFELYB

Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Ymddiriedolaeth unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn. Ad-dalwyd costau teithio o £289 (2015/16: £239) i aelodau'r Ymddiriedolaeth.

Rheolwyr Allweddol yr Ymddiriedolaeth yw y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151, Rheolwr Grantiau, Uwch Gyfrifydd a Chynorthwydd Gweinyddol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 5. GRANTIAU

Dyma'r gwariant elusennol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol (a ariennir o'r Gronfa Cyffredinol, heblaw y nodir fel arall):-

	2016/17 £	No	2015/16 £	No
<b>Cyngor Sir Ynys Môn</b>				
- Oriol Ynys Môn	215,000	1	215,000	1
<b>Grantiau i gyrff cymunedol a gwirfoddol</b>				
- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Chyrff Elusennol Arall	85,996	23	102,766	26
- Costau Rhedeg Neuaddau Pentref	80,000	32	80,000	35
<b>Grantiau Mawr</b>				
- CCTV	-	-	-	-
- Gemau yr Ynysoedd	40,000	1	40,000	1
- Urdd Gobaith Cymru	40,000	1	40,000	1
- Clwb Ffermwyr Ifanc	30,000	1	30,000	1
- Sioe Amaethyddol Môn	-	-	60,000	1
- Menter Môn	110,000	1	110,000	1
- Clwb codi pwysau Caergybi	-	-	60,000	1
- Menter Iaith	50,000	1	-	
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru	37,500	1	-	
- Menter Cymdeithasol	37,500	1	-	
- Cwmni Fran Wen	45,000	1	-	
	<b>770,996</b>	<b>64</b>	<b>737,766</b>	<b>68</b>

Ar dudalen 16 rhestrir y grantiau hynny gwerth dros £1,000. Mae'r 64 grant a ddangosir uchod wedi eu talu i 63 o fudiadau gwahanol.

### Grantiau heb eu hawlio

Mae balansau sydd yn weddil i'r mudiadau isod wedi cael ei ysgrifennu i ffwrdd

	2016/17 £
Cae Cybi Field Association	237
Neuadd Pentref Talwrn	7
Cyngor Cymuned Moelfre	4,756
Cemaes Boat Club	3,500
Cae Chwarae Llanfaethlu	588
Cyngor Cymuned Bryngwran	69
Cyngor Cymuned Penmynydd	151
Canolfan Gymuned David Hughes	89
Cyngor Cymuned Valley	575
Clwb Arlunio Moelfre	404
	<b>10,376</b>

## 6. LLYWODRAETHU

Gweinyddir yr Ymddiriedolaeth am ddim gan Gyngor Sir Ynys Môn, a chynrychiola'r costau Llywodraethu ffioedd i gyrff eraill am wasanaethau arbenigol a chostau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth staff. Ni wneir unrhyw daliadau i'r Ymddiriedolwr (y Cyngor) nac i unrhyw aelod neu swyddog unigol ac eithrio costau'r aelodau, ad-dalu taliadau a wnaed ar ran yr Ymddiriedolaeth, a'r gwariant at bwrpas elusennol a ddangosir yn 4 uchod. Dyma fanylion y costau Rheoli a Gweinyddu:-

	2016/17 £	2015/16 £
Ffi'r Archwiliwr - am wasanaethau Archwilio	2,500	2,450
Costau Gweinyddu	31,040	4,738
Costau Teithio a Chynhaliaeth	289	239
Cyfryngau	2,056	-
Eraill	786	683
	<b>36,671</b>	<b>8,110</b>

Mae costau uniongyrchol gweinyddol yr eiddo buddsoddi yn dangos fel costau yn y Gronfa Gyfalaf. Cyfanswm costau hyn oedd £31,040 (£4,738 yn 2015/16).

## 7. EIDDO BUDDSODDI

Yn ystod 1995, trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn ddau ddarn o dir yn Rhosgoch a Phorth Amlwch i'r Ymddiriedolaeth a gwerth hwnnw ar y farchnad yn cael ei amcangyfrif yn £550,000. Yr oedd y tir hwn yn rhan o gytundeb terfynol cwmni Shell (UK) Cyf. (gweler Adroddiad yr Ymddiriedolwr) ac ynghlwm wrtho'r un amodau â'r rheini oedd ynghlwm wrth yr arian gwreiddiol. Gwerthwyd rhan o'r tir ym Mhorth Amlwch yn 1995/96 a gwerthwyd gweddill y tir yn Rhosgoch yn ystod 2015/16.

Nid oes gwerth i weddill y tir ym Mhorth Amlwch, sef amcangyfrif pris y farchnad, ac mae'n cael ei dynodi fel ased treftadaeth. Mae'n cynnwys un ochor i'r harbwr, sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed ganrif, a hefyd Melin Mona, a adeiladwyd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tir yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i fynediad cyhoeddus i'r Felin ac mae'n ystyried cynigion i gyflawni ei amcanion cadwriaethol a gwarchod a diogelu'r amgylchedd yng nghyswllt y tir hwn.

Gwnaed y gwaith prasio yma gan Brisiwr y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2017. Mae'r prisiwr yn Aelod o'r Sefydliad Brenhinol o'r Syrfewyr Siartredig (MRICS) ac mae'n gyflogedig gan y Cyngor.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Asedau Treftadaeth arall, na pholisi i gaffael yn weithredol unrhyw asedau ychwanegol o'r fath.

## 8. BUDDSODDIADAU

Gellir dadansoddi'r buddsoddiadau yn y fantolen fel a ganlyn:-

	2016/17 £	2015/16 £
Equiti'r DU	6,799,281	6,755,828
Ecwiti Tramor	8,897,062	4,658,462
Llog Sefydlog	4,075,246	3,987,458
Dewisiadau arall	1,956,581	1,478,311
	21,728,170	16,880,059
Arian Parod	620,885	313,195
	<b>22,349,055</b>	<b>17,193,254</b>

Mae arian parod a fuddsoddir yn cynnwys symiau bychain o arian tramor. Dangosir y cyfan o'r buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r gwerth hanesyddol cyfatebol ar 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:-

	<u>Gwerth Hanesyddol</u> £'000	<u>Gwerth y Farchnad</u> £'000	<u>Gwahaniaeth</u> £'000
UK Equity	5,763	6,799	1,036
Overseas Equity	7,426	8,897	1,471
Fixed Interest	3,823	4,075	252
Alternatives	1,720	1,957	237
	<b>18,732</b>	<b>21,728</b>	<b>2,996</b>

Delir y buddsoddiadau trwy reolwyr buddsoddi ac yn enw enwebeion ac mae modd gwerthu'r holl ddaliadau yn ddiraffferth.

Ar ddyddiad y fantolen, 'roedd y daliadau unigol mwyaf yn bennaf mewn buddsoddiadau cyfun (HSBC Global Asset Management UK FTSE All Share Index 12.14% o werth y portffolio; iShares MSCI World GBP Hedged UCITS ETF 6.85% o werth y portffolio; HSBC Index Tracker Investment Funds - American Index Fund 6.33 o werth y portffolio; a HSBC Global Investment Funds - Global Emerging Markets Local Deb 6.33% o werth y portffolio

	<u>Gwerth Hanesyddol</u> £'000	<u>Gwerth y Farchnad</u> £'000	<u>Enillion Sylewddydd</u> £'000
Dygwyd Ymlaen	15,412	16,880	-
Gwerthiannau ac Adbryniadau	(8,161)	(9,680)	1,519
Pryniannau ac ati	11,481	11,481	-
Cyfanswm Enillion /(Colledion) yn ystod y flwyddyn	-	3,047	-
	<b>18,732</b>	<b>21,728</b>	

Cyfrifir enillion/ (colledion) a wireddir fel y gwahaniaeth rhwng incwm gwerthiant a chost hanesyddol. Cyfanswm enillion/ (colledion) ar fuddsoddiadau yw cyfanswm yr enillion / (colledion) a wireddir o werthu daliadau net o unrhyw newidiadau i gost hanesyddol ynghyd ag enillion/(colledion) heb gwireddu.

## 9. DYLEDWYR AC INCWM CRONEDIG

	2016/17 £	2015/16 £
Incwm Buddsoddi Cronedig	72,021	44,205
	<b>72,021</b>	<b>44,205</b>

## 10. CREDYDWYR A CHRONIADAU

	2016/17 £	2015/16 £
Ffi Rheolwyr Buddsoddi	16,853	12,894
Cyngor Sir Ynys Môn	19,860	534,379
Ffi archwilio	2,500	2,400
	<b>39,213</b>	<b>549,673</b>

## 11. DYRANIADAU NA CHAWSANT EU TALU

Grantiau yw'r rhain a roddwyd yn y blynyddoedd blaenorol â'r ymgeiswyr heb hawlio'r arian eto. Fel arfer, mae'r grantiau hynny sydd ddim yn cael eu hawlio cyn pen pedair blynedd yn cael eu dileu, ac adlewyrchir hyn yn y ffigur hwn.

Mae'r grantiau adfywio yn cefnogi cynlluniau lle mae'r ymgeiswyr yn hawlio taliadau dros gyfnod o flynyddoedd.

## 12. CRONFEYDD

	<u>Cronfa Cyffredinol</u> £'000	<u>Cronfa Cyfalaf</u> £'000	<u>Dyrannwyd o'r Gronfa Cyfalaf</u> £'000
Eiddo Buddsoddi	-	-	-
Buddsoddiadau	430	22,310	(391)
Asedau Cyfredol Net	(512)	-	-
	<b>(82)</b>	<b>22,310</b>	<b>(391)</b>

Mae'r arian parod dros ben yn unrhyw gronfa, nad oes ei angen ar gyfer hylifedd tymor byr, wedi ei fuddsoddi dros dro gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Y **Gronfa Gyfalaf** yw gwaddol yr Ymddiriedolaeth ac mae'n waddol y mae modd ei wario. Mae'n cynnwys tir ac arian a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn oddi wrth Shell (UK) Cyf. pryd y rhoddwyd y gorau i weithio eu Glanfa Olew ym Môn, ac a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 1990 a 1995, ynghyd â'r twf cyfalaf ar y symiau hyn. O bryd i'w gilydd, gellir rhyddhau cyfalaf i gyllido prosiectau penodol ar bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r symudiadau yn y Gronfa Cyfalaf yn ymwneud ag enillion a cholledion ar fuddsoddiadau, yr elfen perfformiad o ffi y Rheolwyr Buddsoddi ac unrhyw gostau o wella, diogelu eu marchnata'r tir fel y dangosir yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol.

Mae'r balans ar Y **Gronfa Gyffredinol** yn cyfateb i'r gwarged a'r diffygion a gronnwyd dros y blynyddoedd diwethaf, sef gwarged y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhydd i'w defnyddio yn ôl yr amcanion elusennol.

Mae incwm o'r buddsoddiadau, a'r costau eraill na chodir i'r gronfa cyfalaf yn y flwyddyn, yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol digyfngiad fel sy'n ymddangos yn y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol. Mae'r dyraniadau a wneir yn rhaglen grantiau blynyddol yr Ymddiriedolaeth hefyd yn berthnasol i'r gronfa hon.

### 13. DADANSODDIAD O SYMUDIADAU RHWNG CRONFEYDD

	Balans dygwyd ymlaen £	Adnoddau i mewn £	Adnoddau wedi eu Defnyddio £	Enillion a Cholledion £	Symundiad ar Fuddsoddiadau £	Balans i'w ddwyn ymlaen £
Y Gronfa Gyffredinol	(206,368)	610,711	(487,196)	-	-	(82,853)
Y Gronfa Cyfalaf	19,276,507	508	-	-	3,033,174	22,310,189
Grantiau a Ddyrannwyd	(528)	-	(390,000)	-	-	(390,528)
	<b>19,069,611</b>	<b>611,219</b>	<b>877,196</b>	-	<b>3,033,174</b>	<b>21,836,808</b>

### 14. DADANSODDIAD O'R ENILLION/(COLLEDION) AR AILBRISIADAU A GWAREDIADAU O ASEDAU BUDDSODDI

	2016/17 £	2015/16 £
(Colled) gwireddu ar werthu Ased Sefydlog	-	(83,377)
(Colled) heb ei wireddu ar Ailbrisi	-	(2,631,621)
Cynnydd gwireddu yng ngwerth Buddsoddiadau a adelir	3,033,174	1,989,447
	<b>3,033,174</b>	<b>(725,551)</b>
	<b>(265,977)</b>	<b>(234,937)</b>
Adnoddau net sy'n dod i mewn <b>Cysanswm</b>	<b>2,767,197</b>	<b>(960,488)</b>

**15. CYSONI SYMUDIAD NET YN Y CYLLID I LIFARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU**

	2017 £	2016 £
Symudiad net yn y cyllid ar gyfer y cyfnod adrodd	2,767,197	(961,278)
<b>Addasiad ar gyfer :</b>		
Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau	(611,219)	(585,981)
Enillion wedi eu gwireddu a heb eu gweireddu ar waredu	(3,033,174)	725,551
(Cynnydd)/gostyngiad yn nyledwyr	(27,816)	479
(Cynnydd)/(Gostyngiad) yng nghyredydwyr	(340,337)	164,244
Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yng) ngweithgareddau gweithredu	<b><u>(1,245,349)</u></b>	<b><u>(656,985)</u></b>

**Grantiau dros £1,000 / Grants over £1,000**

<b><u>Mudiad</u></b>	<b><u>Grant (£)</u></b>	<b><u>Organisation</u></b>
Oriel Mon	215,000.00	Oriel Mon
Menter Mon	110,000.00	Menter Mon
Gemau Ynys*	74,916.26	Island Games*
Urdd Gobaith Cymru*	67,670.56	Urdd Gobaith Cymru*
Ffermwyr Ifanc Ynys Mon*	60,000.00	Anglesey Young Farmers*
Menter Iaith	50,000.00	Menter Iaith
Cwmni Fran Wen	45,000.00	Cwmni Fran Wen
Eisteddfod Genedlaethol Cymru	37,500.00	National Eisteddfod of Wales
Menter Gymdeithasol	37,500.00	Social Enterprise
Clwb Hwyllo Brenhinol Mon	8,000.00	Anglesey Royal Sailing Club
Clwb Pel Droed Cemaes	8,000.00	Cemaes Football Club
Cymdeithas Byddar Gogledd Cymru	8,000.00	North Wales Deaf Association
Pantri 6	8,000.00	Pantri 6
Cwmni Cemaes Cyf	7,664.00	Cwmni Cemaes Cyf
Neuad Goffa Bodedern	5,782.00	Bodedern Memorial Hall
Neuadd Goffa Pentraeth*	5,234.29	Pentraeth Memorial Hall*
Neuad Gymuned Coffau Rhyfel Porthaethwy*	5,153.96	Menai Bridge War Memorial Community Centre*
Cymdeithas Chwarae Ardaloedd Llanfaes	4,984.00	Llanfaes Play Areas Association
Clwb Pel Droed Llangejni	4,271.00	Llangejni Football Club
Neuadd Bentref Llanfaelog*	3,999.29	Llanfaelog Village Hall*
Clwb Pel Droed Hotspur	3,900.00	Hotspur Football Club
Partneriaeth Adfywio Morawelon a Ffordd Llundain (Morlo)	3,753.00	Morawelon and London Road Regeneration Partnership (Morlo)
Neuadd Bentref Rhosneigr	3,600.00	Rhosneigr Village Hall
Neuadd David Hughes Cemaes	3,600.00	David Hughes Charity (Cemaes) Village Hall
Neuadd Gymuned Newry	3,600.00	Newry Community Centre
Sefydliad Coffau Rhyfel Amlwch	3,600.00	Amlwch War Memorial Institute
Neuadd Gymuned Llaingoch	3,512.19	Community Centre Llaingoch
Neuadd Gymuned Gwelfor	3,323.94	Gwelfor Community Centre
Neuadd y Plwyf Llandegfan	3,056.00	Llandegfan Parish Hall
Bryngwran Cymunedol Cyf	3,000.00	Bryngwran Community Ltd
Cronfa Gwydr Lliw Eglwys Sant Gwenllwyfo	3,000.00	Saint Gwenllwyfo Church Stained Glass Fund
Neuadd Bentref Gaerwen	2,863.05	Gaerwen Village Hall
Neuadd Bentref Llanfaethlu	2,758.43	Llanfaethlu Village Hall
Neuadd Bentref Bae Trearddur	2,606.13	Trearddur Bay Village Hall
Neuadd Pritchard Jones Niwbwrch	2,493.72	Neuadd Pritchard Jones Newborough
Neuadd Bentref Aberffraw	2,283.60	Aberffraw Village Hall
Canolfan Gymuned Kingsland	2,245.19	Kingsland Community Centre
3D Kids	2,100.00	3D Kids
Clwb Caban Rhoscolyn	2,100.00	Clwb Caban Rhoscolyn
Neuadd Bentref Llangoed	1,964.22	Llangoed Village Hall
Cyngor Cymuned Llanerchymedd	1,850.00	Llanerchymedd Community Council
Clwb Pel Doed Bae Trearddur	1,848.00	Trearddur Bay United Football Club
Pwyllgor Hen Ysgol Marianglas	1,815.25	Old School Marianglas Committee
Canolfan Gymuned Pen y Sarn	1,772.02	Penysarn Community Centre
Cymuned Porthaethwy a Grwp Carnifal	1,750.00	Menai Bridge Community and Carnival Group
Cymdeithas Campau & Cymdeithasol Porth Amlwch	1,705.44	Amlwch Port Sports & Social Association
Cylch Llennyddiaeth Llanfairpwll	1,585.00	Llanfairpwll Literacy Circle
Neuadd Gymuned Brynteg	1,549.07	Brynteg Community Centre
Neuadd Bentref Talwrn	1,438.81	Talwrn Village Hall
Y Ganolfan Brynsiencyn	1,393.38	The Centre Brynsiencyn
Crafty T'arts	1,042.00	Crafty T'arts
Ail - fyw Oes Gwynedd ac Ynys Mon	1,000.00	Relay for Life Gwynedd & Anglesey
Clwb Gymnasteg Mon	1,000.00	Anglesey Gymnastics Club
	<b>845,783.80</b>	



## **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr**

Yr ymddiriedolwr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl cyfraith elusennau Lloegr a Chymru, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o'r elusen, yr adnoddau mewnol a'r defnydd o adnoddau yr elusen am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr:-

- (a) ddefnyddio a chymhwyso yn gyson bolisiau cyfrifyddol addas a luniwyd;
- (b) dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiadau Cymeradwyol o Ymarferion Elusennau;
- (c) gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
- (ch) datgan os yw'r bolisiau a fabwysiadwyd yn gyson gyda'r safonau Cyfrifydd perthnasol, gyda'r safonau cyfrifo priodol, yn amodol ar i'r amrywiadau sylweddol gael eu nodi a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol; a
- (d) paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes byw onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol digonol sydd yn dangos, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol yr elusen, sydd yn caniatáu iddynt sicrhau bod sefyllfa ariannol yr elusen a'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifo a Ymadrodd) Elusennau a'r darpariaethau o fewn gweithredoedd yr ymddiriedolaeth. Yr ymddiriedolwr sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Elusen ac, felly, am gymryd camau priodol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

## **Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am y flwyddyn i'r 31<sup>ain</sup> Mawrth 2017, sydd yn cynnwys y Datganiad o Weithredoedd Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig (Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar gyfer yr ymddiriedolwr, fel corff, yn unol ac Adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Mae'n gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i ymddiriedolwr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd mewn adroddiad archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw yr elusen ac ymddiriedolwr yr elusen, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

## **Priod Gyfrifoldebau Yr Ymddiriedolwr a'r Archwiliwr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr, yr ymddiriedolwr sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg gwir a theg.

Yr ydym wedi ein hapwyntio fel archwiliwr yn unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â rheoliadau o dan Adran 154 o'r Ddeddf. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a rhoi barn arnynt yn unol â gofynion y gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'n ofynnol dan y safonau hynny i gydymffurfio a Safonau Moesol i Archwilyr gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

## **Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Parhad)**

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sydd yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, boed hynny wedi'i achosi trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o:-

os yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r cwmni elusennol, wedi eu defnyddio yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; o resymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaethpwyd gan yr ymddiriedolwyr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, 'rydym wedi darllen yr wybodaeth ariannol a di-ariannol yn Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol i adnabod os oes anghysondeb sylweddol gyda'r datganiadau ariannol sydd wedi eu harchwyllo. Os dawn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol amlwg, rydym yn ystyraied golygiadau ein adroddiad.

### **Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn ein barn, mae'r datganiadau ariannol yn:-

- rhoi golwg gwir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2017, ac am yr adnoddau a dderbyniwyd a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys yr incwm a'r gwariant, am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol a'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig ; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### **Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglŷn â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:-

- bod yr wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr yn sylweddol anghyson gyda'r datganiadau ariannol;
- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno a'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

*W J Matthews a'i Fab  
Archwiliwr Statudol  
Cyfrifwyr Siartredig  
11-15 Y Bont Bridd  
Caernarfon LL55 1AB*

*Dyddiedig:*

<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>24 IONAWR 2018</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>CYLLIDEB 2018/19</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>CYLLIDEB AMLINELLOL</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>TRYSORYDD YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>MABWYSIADU'R GYLLIDEB AR GYFER 2018/19</b>

## 1. Crynodeb

1.1 Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido ar gyfer 2018/19.

1.2 Yn 2017/18 Cyllideb yr Ymddiredolaeth oedd:-

### O'r Gronfa Gyffredinol

- Oriol Ynys Môn £215k;
- Neuaddau Pentref £80k;
- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bach £125k;
- Costau Gweinyddol y Cyngor £30k;
- Menter Môn £110k;
- Cymdeithas Gemau'r Ynys Môn £40k;
- Urdd £40k; a
- Ffermwyr Ifanc Ynys Môn £30k.

### Cyfanswm £670k

### O'r Gronfa Cyfalaf

- Canolfan Ucheldre £30k;
- Meddwl Ynys Môn a Gwynedd £20k;
- Rheilffordd Ganolog Môn Cyf. £25k;
- Canolfan Hamdden Biwmaris £45k;
- Cwmni Tref Llangefni £25k;
- Cyngor Cymuned Llanfair M E £10k;
- Clwb Bocsio Caergybi £20k;
- Cadetiaid Môr Caergybi £20k;
- Cyngor Tref Caergybi £50k;
- Neuadd Pentef Llanddona £45k;
- Medwrn Môn £25k; a
- Cymunedau'n Gyntaf Môn £35k.

### Cyfanswm £350k

## 2. Gwerth Portffolio ac Incwm Buddsoddi Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn 2018/19

- Gwerth presennol y Portffolio ar 30 Tachwedd 2017 yw £22,909,352;
- Rhagolygon diweddaraf yr Incwm Buddsoddi ar gyfer 2018/19 yw £680,000;

- Rhagolygon Ffioedd Rheoli ar gyfer 2018/19 sydd yn seiliedig ar raddfa sefydlog o 0.4% o werth y portffolio yw £94,000; a
- Roedd diffyg o £82,854 yn yr Arian Wrth Gefn wedi eu cario ymlaen o 2016/17. Gweler y Datganiad ar Weithgareddau Cyllidol or Adroddiad Blynyddol 2016/17.

### 3. Symudiadau yn Arian Wrth Gefn yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

	2017/18 £000	2018/19 £000
Incwm Buddsoddi	680	680
Llai ffioedd rheoli buddsoddi	(60)	(94)
Ar gael i wario	620	586

#### Gwariant

Gwariant Grant (para4)	640	530
Cyfanswm Gwariant	640	530

#### Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn

Arian Dros Ben / (Diffyg) wedi ei gario ymlaen	(83)	(103)
I/(O) Arian Wrth Gefn	(20)	56
Arian dros ben / (Diffyg) a Ragolygwyd ar ddiwedd y flwyddyn	(103)	(47)

### 4. Cynnig Cyllideb 2018/19 yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Math o Grant	Cyllideb o'r Gronfa Gyffredinol £'000	Cyllideb o'r Gronfa Cyfalaf £'000
Oriel Ynys Môn	215	
Neuaddau Pentref	80	
Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan	125	
Grantiau Mawr		350
Ymrwymadau Tymor Hir:-		
Ffermwyr Ifanc Ynys Môn	30	
Urdd Gobaith Cymru	40	
Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn	40	
	530	350

Bwriedir cadw cyllideb y Neuaddau Pentref yn £80k fel y dyfarnwyd yn 2017/18. Ond, yn ddiweddar, mae'r swm a wariwyd gan y Neuaddau Pentref wedi bod yn llai na £80k (£67k yn 2015/16, £64k yn 2016/17 a £64k i fyny i Chwarter 3 yn 2017/18). Mae yna le i leihau y gyllideb i adlewyrchu y derbyniadau diweddar.

Bwriedir cadw cyllideb i Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychain yn £125k fel y dyfarnwyd yn 2017/18. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r swm a wariwyd am y Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychain wedi bod yn llai na £125k (£103k yn 2015/16, £86k yn 2016/17 a £59k yn 2017/18). Mae yna le i leihau y gyllideb i adlewyrchu y derbyniadau diweddar.

O ganlyniad i'r cynnig cyllideb yma, bydd diffyg o £103k yn cael ei cario ymlaen i 2018/19. Fodd bynnag, bydd rhan fwyaf o'r diffyg yma yn cael ei dynnu allan pan ddaw gweddill yr Ymrwymadau Tymor Hir o £110k i ben yn 2018/19.

**5. Y Cylch Cyllido 2018/19**

Cynigir cyhoeddi hysbysebion am grantiau blynyddol bychan i'w dyfarnu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yng nghanol mis Mawrth 2018, gyda dyddiad cau o Dydd Gwener 11 Mai 2018 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Rhan 7(a) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

**6. Grantiau Mawr 2018/19**

Yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2017, penderfynodd y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau fod dyraniad o £350k yn cael ei wneud ar gael at gyllido grantiau mawr yn 2018/19.

**7. Argymhellion**

**(a)** Mabwysiadu'r gyllideb am 2017/18 fel a ganlyn:-

Oriel Ynys Môn	£215k
Neuaddau Pentref	£ 80k
Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan	£125k
Grantiau Mawr o Gronfa Cyfalaf (gweler rhan 6 uchod)	£350k
Ymrwymadau Tymor Hir parhaus (wedi eu torri lawr yn nhabl 4)	£110k

**(b)** Dirprwyo swm o £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan.

This page is intentionally left blank

<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR</b>	<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>24 IONAWR 2018</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>MENTER MÔN – PROSIECT ‘LEADER’</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Ystyried cais gan Menter Môn i ddarparu cyllid ychwanegol</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	<b>TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>
<b>GWEITHREDU</b>	<b>Ystyried y cais a phenderfynu a ddylid ei dderbyn a rhyddhau'r grant.</b>

## 1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Ym mis Ebrill 2014, rhoddodd Rheolwr-Gyfarwyddwr Menter Môn ar y pryd gyflwyniad i'r Ymddiriedolaeth ar y prosiect 'Leader'. Dyluniwyd y prosiect 'Leader' i gynorthwyo gydag ailstrwythuro economaidd Ynys Môn. Roedd y cynllun i redeg am gyfnod o 6 blynedd a gofynnodd y Rheolwr-Gyfarwyddwr am gyllid gan yr Ymddiriedolaeth fel cyllid cyfatebol er mwyn sicrhau arian grant Ewropeaidd. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth y cais mewn egwyddor.
- 1.2 Ar 6 Chwefror 2015, cymeradwywyd y cyllid Ewropeaidd ac, o ganlyniad, rhoddodd Rheolwr-Gyfarwyddwr Menter Môn gyflwyniad pellach i'r Pwyllgor Adfywio yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2015. Argymhellodd y Pwyllgor Adfywio y dylid cymeradwyo'r cais a chadarnhawyd y penderfyniad hwn gan yr Ymddiriedolaeth lawn yn ei chyfarfod ar 13 Gorffennaf 2015.
- 1.3. Dyfarnodd yr Ymddiriedolaeth £330,000 a oedd yn daladwy dros 3 blynedd (2015 - 2017) fel cyllid cyfatebol er mwyn gallu sicrhau'r grant o £1.65m.

## 2. CAIS NEWYDD

- 2.1 Prosiect 6 blynedd yw'r prosiect 'Leader' a bydd yn rhedeg hyd at fis Rhagfyr 2021. Cyfanswm cost y prosiect yw £3.3m, a bydd £2.78m ohono'n cael ei ariannu gan arian grant Ewropeaidd a chyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r balans o £0.52m yn gyllid cyfatebol y mae'n rhaid i Menter Môn ei sicrhau. Mae'r £330k cychwynol a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn rhan o'r cyllid cyfatebol, gan adael balans o £191,438 y mae'n rhaid i Menter Môn ei sicrhau.
- 2.2 Mae copi o'r cais gan Menter Môn ynghlwm yn Atodiad 1.
- 2.3 Cytunwyd y cais blaenorol cyn i'r Ymddiriedolaeth gymeradwyo'r broses ar gyfer grantiau mwy. Mae'r broses grantiau mwy yn cyfyngu ar y cyllid y gall unrhyw sefydliad unigol ei dderbyn i un grant mawr mewn unrhyw gyfnod treigl o bum mlynedd. Gan fod Menter Môn wedi cael grant mawr yn y pum mlynedd diwethaf, byddai'r penderfyniad hwn yn atal yr Ymddiriedolaeth rhag dyfarnu grant pellach i gefnogi'r cais hwn.
- 2.4 Dygir y cais i sylw'r Ymddiriedolaeth y tu allan i'r broses arferol ar gyfer dyfarnu grantiau mawr gan fod Menter Môn angen penderfyniad cynnar ynghylch a fydd y cais yn llwyddo ai peidio, fel y gallent benderfynu ar eu hopsiynau a chwilio am ffynonellau cyllid eraill os nad yw'r cais hwn yn llwyddiannus.

### **3. Y PENDERFYNIAD Y MAE ANGEN I'R YMDDIRIEDOLAETH EI WNEUD**

- 3.1** Gofynnir i'r Ymddiriedolaeth ystyried y cais a phenderfynu a yw am ei gefnogi a'i drin fel eithriad i'r broses grantiau mwy h.y. dyfarnu ail grant mawr o fewn cyfnod o bum mlynedd. Byddai cefnogi'r cais yn arwain at ddyfarnu grant pellach o £191,438 i Menter Môn am y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Rhagfyr 2021.

**MARC JONES**  
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELESENNOL YNYS MÔN**

**10 IONAWR 2018**





**CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**  
**APPLICATION FOR FINANCIAL ASSISTANCE**

1. **ENW'R MUDIAD**  
 NAME OF ORGANISATION **Menter Môn**
2. **ENW A CHYFEIRIAD Y SAWL SY'N GWNEUD Y CAIS**  
 NAME AND ADDRESS OF PERSON MAKING THE APPLICATION  
 Dafydd Gruffydd , Menter Môn, Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn  
**CÔD POST / POST CODE** LL77 7LR  
**RHIF FFÔN** TEL NO. 01248 725700 **E-BOST** E-MAIL dafydd@mentermon.com  
**SWYDD GYDA'R MUDIAD**  
 POST HELD IN ORGANISATION Rheolwr Gyfarwyddwr
3. **PWRPAS Y MUDIAD**  
 PURPOSE OF ORGANISATION Bod yn sefydliad creadigol ar gyfer datblygu cymunedol ac economaidd yng Ngogledd Cymru, gan gydweithio â phartneriaid i greu systemau, cynnyrch a gwasanaethau sy'n cyfrannu at adfywio ardal Gogledd Cymru mewn economi fyd-eang sy'n gynyddol gystadleuol.
4. **BETH YW NATUR EICH GRŴP?**  
 WHAT IS THE NATURE OF YOUR GROUP?  
 GRWP CYMUNEDOL CYFANSODDEDIG / CONSTITUTED COMMUNITY GROUP  
 ELUSEN GOFRESTREDIG / REGISTERED CHARITY  
 CWMNI CYDWEITHREDOL / CO-OPERATIVE COMPANY  
 CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT / COMPANY LIMITED BY GUARANTEE  
 ARALL / OTHER \_\_\_\_\_
- RHIF ELUSEN (OS YN BERTHNASOL)**  
 CHARITY NUMBER (IF APPLICABLE) \_\_\_\_\_ Dim yn berthnasol \_\_\_\_\_
5. **SWM Y GOFYNNIR AMDANO**  
 AMOUNT APPLIED FOR £191,438 \_\_\_\_\_
6. **PWRPAS Y CAIS (Os yn brosiect ar eiddo neu dir (e.e. llecyn chwarae) cwblhewch y Daflen Dechnegol)**  
 PURPOSE OF APPLICATION (If it is a project on property or land (e.g. play areas) please complete the Technical Sheet  
 Parhad o arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen LEADER
- 
7. 

<b>DYDDIAD CYCHWYN Y CYNLLUN</b> START DATE OF SCHEME	01/02/2015	<b>DYDDIAD GORFFEN Y CYNLLUN</b> COMPLETION DATE OF SCHEME	31/12/2021
--	------------	---	------------

**8. FAINT FYDD YN ELWA O'R CYNLLUN**  
HOW MANY WILL BENEFIT FROM THE SCHEME

<b>OEDOLION</b> ADULTS		<b>PLANT</b> CHILDREN	
---------------------------	--	--------------------------	--

Rhoddir manylion allbynnau fel ateb i gwestiwn 20.

**9. PROSIECT ARIANNU**  
PROJECT FUNDING

Rhowch ddadansoddiad yn y bychau isod gostau eich prosiect a sut y bydd costau eich prosiect yn cael ei ariannu nodi a cyllid ychwanegol yn cael ei geisio ar hyn o bryd neu wedi cael ei sicrhau.

Provide a breakdown in the boxes below of your project costs and how your project costs will be funded indicating whether additional funding is currently being sought or has been secured.

**COST O PROSIECT (YN CYNWYS T.A.W.)**

**PROJECT COSTS (INCLUDING V.A.T.)**

Rhestrwch eich eitemau o wariant, er enghraifft cyflogau, marchnata, llogi lleoliad.

List your items of expenditure for example salaries, marketing, venue hire.

<b>Eitem o wariant / Item of Expenditure</b>	<b>Cost</b>
Arian Cyfatebol ar gyfer y rhaglen LEADER	£ 191,438
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>£ 191,438</b>

**FFYNONELLAU CYLLID**

**SOURCES OF FUNDING**

Rhestrwch eich arian eich hun ac unrhyw grantiau sy'n cael eu ceisio neu wedi cael eu sicrhau.

List your own funds and any grants which are being sought or have been secured .

<b>Ffynhonnell Ariannu / Funding Source</b>	<b>Swm / Amount</b>	<b>Dyddiad Secured neu Benderfyniad Disgwyliedig /Date Secured or Decision Expected</b>
<b>Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn / Anglesey Charitable Trust Grant Requested</b>	£191,438 (5.8%)	
Arian cyfatebol blaenorol	£330,000 (10%)	Cyfraniad blaenorol gan YEYM
Rhaglen LEADER (EAFRD a Llywodraeth Cymru)	£2,780,250 (84.2%)	10/8/2015
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>£3,302,250 (100%)</b>	

10. **YDI'R CYNLLUN YN GOLYGU GWNEUD GWAITH ADEILADU NEU BRYNU OFFER?**  
DOES THE SCHEME INVOLVE ANY BUILDING WORK OR PURCHASE OF EQUIPMENT?

YDI  
YES

NAC YDI  
NO

**OS YDI, MAE'N RHAID CWBLHAU'R DAFLEN DECHNEGOL (FELYN)**  
**IF YES, YOU MUST COMPLETE THE TECHNICAL SHEET (YELLOW)**

11. **YDYCH CHI'N GALLU ADENNILL T.A.W.?**  
ARE YOU ABLE TO RECLAIM V.A.T.?

YDYM  
YES

NAC  
YDYM  
NO

RHANNOL  
PARTLY

**OS YN RHANNOL, YNA PA % O'CH T.A.W ALLWCH EI ADENNILL AR Y CYNLLUN YMA?**  
IF PARTLY, WHAT % OF YOUR V.A.T. CAN YOU RECOVER ON THIS PROJECT?

12. **RHOWCH FANYLION AM UNRHYW GEFNOGAETH ARIANNOL MAE EICH MUDIAD WEDI EI DDERBYN GAN GYNGOR SIR YNYS MÔN NEU UNRHYW GRONFA A WEINYDDWYD GAN Y CYNGOR YN Y TAIR BLYNEDD DIWETHAF.**

PLEASE GIVE DETAILS OF ANY FINANCIAL ASSISTANCE YOUR ORGANISATION HAS RECEIVED FROM THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL OR ANY FUND ADMINISTERED BY THE AUTHORITY IN THE LAST THREE YEARS.

Gwerth cynllun LEADER Môn yw £3,302,250 dros 6 mlynedd a mae angen £521,500 o arian cyfatebol, sef 15.8%. Mae'r arian cyfatebol yn gyfraniad at gost gwireddu y cynlluniau a **nid** at costau gweinyddu'r rhaglen. Gweler isod tabl sydd yn rhoi trosolwg o gyllideb y cynllun yr yr adroddiad atodedig.

Yn 2015 cyflwynwyd cais i Ymddiriedolaeth Elusennol Môn am arian cyfatebol am y 3 mlynedd cyntaf. Derbyniwyd ymrwymiad o £110,00 y flwyddyn am y cyfnod yma a gofynwyd i Menter Môn gyflwyno ail gais ar gyfer gweddill y cynllun ar ddiwedd y 3 mlynedd cyntaf. Cyfanswm y cyllid cyfatebol sydd ei angen yw £191,500.

Nid yw Menter Môn angen rhagor o arian cyfatebol ar hyn o bryd, ond mae angen gwybod os oes bwriad gan yr Ymddiriedolaeth i gyfrannu er mwyn medru ystyried opsiynau eraill e.e. gofyn am gyfraniad gan gymunedau a grwpiau Môn.

Dylid pwysleisio fod cyfraniad yr Ymddiriedolaeth yn gwbwl allweddol i lwyddiant y cynlluniau ac yn caniatáu i ni wireddu heb ofyn i'r cymunedau a grwpiau godi arian eu hunain. Gall dibynnu ar gyfraniadau cymunedol wneud y cynllun yn anymarferol i'w weithredu.

13. **BALANS AR DDIWEDD EICH BLWYDDYN ARIANNOL DDIWETHAF.**  
BALANCE AT THE END OF YOUR LATEST FINANCIAL YEAR.

<b>MEWN LLAW</b>	£	<b>SURPLUS</b>
<b>DIFFYG</b>	£868,552	<b>DEFICIT</b>

Ffigwr **atebolrwydd pensiwn** y cwmni sydd yn gyfrifol am y diffyg uchod. Gweler y eglurhad isod a rydym wedi darparu copi o gyfrifon y cwmni.

Mae Menter Môn yn aelod o **Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)**, sef Cronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Cyngor Gwynedd. Yn dilyn asesiad o'r Gronfa gan yr actiwariad, daeth i'r canlyniad bod angen cynyddu atebolrwydd Menter Môn i £2,002,600 yn 2016 (£806,550 yn 2015). O ran Menter Môn, rydym wedi cynyddu ein cyfraniadau i mewn i'r Gronfa fel y cyfarwyddwyd gan yr actiwariad a bydd hyn yn parhau tan 2019/20 pan fydd yr asesiad nesaf yn ddyledus. Yn anffodus, fel canlyniad o'r asesiad yma, rhaid dangos rhan Menter Môn o'r atebolrwydd yn y cyfrifon blynyddol sy'n golygu bod y ffigwr cronfeydd wrth gefn wedi newid i ffigwr negyddol yn 2016 (diffyg o £868,552 yn 2016, ffigwr mewn llaw o £541,612 yn 2015).

14. **ENW A CHYFEIRIAD Y TRYSORYDD (Os yn wahanol i '2' uchod)**  
NAME AND ADDRESS OF TREASURER (If different to '2' above)

Geraint Owen, Menter Môn, Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn LL77 7LR

15. **ENW A CHYFEIRIAD YR ARCHWILIWR**  
NAME AND ADDRESS OF AUDITOR

I. G. JONES A'I GWMNI, CYFRIFWYR SIARTREDIG, 10A STRYD FAWR, LLANGEFNI, YNYS MON, LLANGEFNI, YNYS MON, LL77 7LT.

16. **AMLINELLWCH ISOD SUT Y BYDDWCH YN DEFNYDDIO'R GRANT I SICRHAU GWASANAETH DWYIEITHOG I'R CYHOEDD. GALL HYN GYNNWYS EICH GWASANAETHAU (A CHYFARFODYDD) GRŴP A/NEU WYNEB YN WYNEB, GWYBODAETH PRINTIEDIG, ARWYDDION A THUDALENNAU GWEFAN ER ENGHRAIFFT.**

OUTLINE BELOW HOW YOU'LL USE THE GRANT TO ENSURE A BILINGUAL SERVICE TO THE PUBLIC. THIS CAN INCLUDE YOUR ORGANISATION'S GROUP AND/OR FACE TO FACE SERVICES (AND MEETINGS), PRINTED INFORMATION, SIGNS AND WEB PAGES FOR EXAMPLE.

Yn ogystal a gweithredu yn unol a'i bolisi iaith sydd yn sicrhau cydraddoldeb ieithyddol ymhob agwedd o'i waith, mae amryw o gynlluniau LEADER yn hyrwyddo y Gymraeg ac yn ceisio ychwanegu gwerth at ddiwylliant a threftadaeth lleol. Ymysg y cynlluniau sydd wedi eu gweithredu hyd yma mae Byw a Bod Perfformio, oedd yn darparu cyfle i berfformwyr ifanc gyflwyno y Gymraeg, a Croeso Cymraeg oedd yn cefnogi bwytai i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda tîm y Fenter Iaith i weithredu rhagor o gynlluniau sydd yn rhoi llwyfan i'r Gymraeg yn Môn.

17. **OES GAN Y MUDIAD BOLISI CYFLE CYFARTAL SY'N YMRWYMO I SICRHAU CYDRADDOLDEB I DDEFNYDDWYR A STAFF AR SAIL HIL, RHYW, ANABLEDD, CYFEIRIADEDD RHYWIOL, CREFYDD NEU GRED AC OEDRAN ?**

DOES THE ORGANISATION HAVE AN EQUAL OPPORTUNITIES POLICY WHICH IS COMMITTED TO ENSURING EQUALITY TO ALL STAFF AND USERS ON THE BASIS OF RACE, SEX, DISABILITY, SEXUAL ORIENTATION, RELIGION OR BELIEF, AND AGE?

OES  
YES

NA  
NO

**OS OES, DYLLID CYFLWYNO COPI OHONO**  
IF YES, A COPY SHOULD BE INCLUDED

18. **OES GAN Y MUDIAD BOLISI AMGYLCHEDDOL?**

DOES YOUR ORGANISATION HAVE AN ENVIRONMENTAL POLICY?

OES YES  NA NO

**OS OES, DYLLID CYFLWYNO COPI OHONO**

IF YES, A COPY SHOULD BE INCLUDED

- 19. YDI EICH MUDIAD YN CYTUNO I GADW AT AMODAU'R GRONFA BERTHNASOL?**  
DOES YOUR ORGANISATION AGREE TO KEEP TO THE TERMS OF THE RELEVANT FUND?

Mae Menter Môn yn cytuno i gadw i amodau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Mae gofyn i Menter Môn weithredu yn ôl gofynion Llywodraeth Cymru a WEFO wrth wireddu cynllun LEADER. Mae gofyn i ni wario yn ôl canllawiau penodol e.e. rheolau caffael, hyrwyddo, dwyieithrwydd, a chadw cofnodion manwl er mwyn hawlio arian. Rydym hefyd yn derbyn archwiliadau cyson i sicrhau cydymffurfiaeth. Gall Menter Môn ddarparu yr un dystiolaeth i'r Ymddiriedolaeth yn ôl yr angen.

- 20. DARPARU BUDDIANNAU I DRIGOLION YNYS MÔN**  
PROVIDING BENEFITS TO THE RESIDENTS OF ANGLESEY

- 1. BETH YW NIFEROEDD O DDEFNYDDWYR/YMWELWYR A RAGWELIR GAN Y SEFYDLIAD AR GYFER Y FLWYDDYN GYNTAF LLAWN O'R PROSIECT/OES Y PROSIECT (PRYN BYNNAG YW'R HIRAF)?**

WHAT IS THE ORGANISATION'S PROJECTED NUMBERS OF USERS/VISITORS FOR THE FULL YEAR OF THE PROJECT/LIFETIME OF THE PROJECT (WHICHEVER IS THE LONGER)?

Mae gofyn i gynllun LEADER adrodd yn erbyn allbynnau penodol. Gweler isod yr allbynnau disgwyliedig dros holl gyfnod y cynllun (2015 – 2021). Yn y tair blwyddyn gyntaf mae'r cynllun wedi gor gyrraedd nifer o allbynnau a disgwylir i'r patrwm yma barhau. Yn sgil perfformiad yn erbyn allbynnau yn y tair blynedd cyntaf rydym wedi diwygio y targedau.

Mae'r cynllun wedi llwyddo cyrraedd lefelau uchel rhanddeiliaid a chyfranogwyr, hynny yw unigolion sydd yn cyfrannu ac yn elwa o'r cynlluniau. Gall enghreifftiau o rhain gynnwys unigolion sydd yn mynychu sesiynau iechyd mewn hwb cymunedol, neu pobl ifanc sydd yn cyfrannu at gynllun theatrig stryd.

Allbwn / Output	Targed gwreiddiol (2021)	Cyflawnwyd (tystiolaeth wedi gasglu)	Cyflawnwyd (tystiolaeth angen ei gasglu)	Targed diwygiedig (2021)
Nifer swyddi wedi eu creu	0	0	2	10
Nifer o astudiaethau dichonolrwydd	8	9	17	25
Nifer o rwydweithiau sefydlwyd	14	2	5	14
Nifer o swyddi wedi eu gwarchod	5	0	4	10
Nifer y gweithgareddau peilot	51	3	20	51
Nifer o hybiau cymunedol	11	0	2	11

Nifer o weithrediadau lledaenu gwybodaeth	95	<b>28</b>	<b>33</b>	<b>100</b>
Nifer o randdeiliaid a ymgysylltwyd	160	<b>364</b>	<b>519</b>	<b>1500</b>
Nifer o gyfranogwyr gefnogwyd	144	<b>330</b>	<b>538</b>	<b>1500</b>

**2. FAINT O DDEFNYDDWYR/YMWELWYR Y GWASANAETH A RAGWELIR I FOD YN DRIGOLION YNYS MÔN?**

HOW MANY SERVICE USERS/VISITORS ARE ANTICIPATED TO BE RESIDENTS OF ANGLESEY?

Ynys Môn a'i thrigolion yw ffocws yr holl weithgareddau. Bwriad LEADER yw sicrhau budd i ardal penodol a mae gofyn i allbynnau ddangos hynny. Er enghraifft ni ellir cofnodi defnyddiwr gwasanaeth os nad ydynt yn byw ar Ynys Môn. Mae'r un egwyddor yn wir gyda swyddi, gweithgareddau peilot, rhwydweithiau sefydlwyd ayb.

**3. SUT BYDD NIFER DEFNYDDWYR Y GWASANAETH YN CAEL EU MESUR/GWIRIO?**

HOW WILL THE NUMBER OF SERVICE USERS BE MEASURED / VERIFIED?

Mae diffiniad penodol ar gyfer pob allbwn a mae gofyn darparu tystiolaeth manwl er mwyn ei hawlio. Gweler enghreifftiau isod:

Allbwn	Diffiniad	Tystiolaeth
Rhwydweithiau sefydlwyd	Grwp sydd wedi ei greu yn sgil cefnogaeth uniongyrchol y cynllun.	Copi o gyfansoddiad y grwp, manylion yr aelodaeth a cofnodion cyfarfodydd
Cyfranogwyr	Unigolyn sydd wedi cyfrannu at datblygu a gweithredu y cynllun.	Manylion yr unigolyn a'i gyfraniad i'r cynllun.

Mae Menter Môn yn cadw cofnod manwl o allbynnau ar gyfer pob gweithgaredd ac yn gorfod cyflwyno tystiolaeth i gefnogi allbynnau os bydd archwiliad. Gellid cyflwyno y wybodaeth yma i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ôl yr angen.

**4. SUT BYDD Y SEFYDLIAD YN SICRHU FOD Y CYNLLUN/PROSIECT YN AGORED I DRIGOLION AR DRAWS YNYS MÔN?**

HOW WILL THE ORGANISATION ENSURE THAT THE SCHEME/PROJECT IS ACCESSIBLE TO RESIDENTS FROM ALL ACROSS ANGLESEY?

Mae pwyslais mawr o fewn LEADER i ddatblygu cynlluniau o'r gwaelod i fyny. Hynny yw adnabod anghenion y gymuned a datblygu datrysiadau ar y cyd. Er mwyn sicrhau fod y cynlluniau yn adlewyrchu anghenion y gymuned ac yn agored i bawb rydym yn gweithredu yr isod.

**Grwp Gweithredu Lleol Ynys Môn**

Mae'r cynllun yn cael reoli gan Grwp Gweithredu Lleol sydd â chynrychiolaeth o'r sectorau preifat, cyhoeddus a chymunedol. Mae 20 aelod ar y Grwp Gweithredu Lleol a'i brif dyletswyddau yw:

- Darparu dolen gyswllt gyda gwahanol grwpiau a chymunedau yn Môn

- Cydweithio gyda swyddogion wrth ddatblygu cynlluniau i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ymarferol.
- Mynychu is grwpiau thematig a'r grwp llawn er mwyn darparu mewnwn ac adborth ar gynlluniau.
- Monitro sut mae'r rhaglen yn gweithredu yn erbyn gwariant a allbynnau.
- Cytuno ar unrhyw wariant ar gynlluniau mewn cyfarfodydd y Grwp Gweithredu Lleol.

Enwebwyd aelodau drwy broses agored a mae croeso i unigolion rhoi eu henwau ymlaen i fod yn aelod o'r grwp.

Mae'r Grwp Gweithredu Lleol yn adnodd pwysig i'r cynllun ac yn sicrhau fod cynlluniau yn gwasanaethu gwahanol garfannau o'r gymuned, a hynny yn ddeaeryddol ac o ddiddordeb.

### **Swyddogion Prosiect**

Ar lefel gweithredol mae 4 Swyddog Prosiect yn gwireddu cynlluniau yn y 5 thema, sef Ychwanegu Gwerth, Allanol Gwasanaethau, Ynni Adnewyddol, Gwasanaethau Ddigidol a datblygu Cadwyni Cyflenwi. Mae gan y swyddogion brofiad helaeth o weithio gyda chymunedau a grwpiau yn Ynys Môn a rhoddir pwyslais mawr ar gydweithio gyda amryw o rwydweithiau. Bydd y gwaith o ymgysylltu a chymunedau yn parhau hyd at ddiwedd y cynllun presennol.

### **Hyrwyddo a marchnata gweithgareddau**

Mae Menter Mon yn defnyddio gwahanol dulliau er mwyn annog cyfranogiad grwpiau, busnesau ac unigolion mewn cynlluniau. Gweler isod enghreifftiau o beth gwnaethpwyd eisoes:

<b>Cynllun</b>	<b>Broses ymgysylltu</b>
Croeso Cymraeg (cynllun annog bwytai i ddefnyddio y Gymraeg)	Ymgyrch hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth ac yna proses ymgeisio agored ar gyfer adnabod 5 bwyty addas i gymeyd rhan yn y cynllun.
Byw a Bod Digidol (Cynllun i hyrwyddo cyfleoedd gwaith gwerth uchel ar Ynys Môn)	Ymgyrch hyrwyddo ar cyfryngau cymdeithasol ac yna proses ymgeisio ar gyfer pobl ifanc a busnesau i fod yn ran o'r cynllun.

Yn ogystal a defnyddio gwahano dulliau i annog cyfranogiad, rhoddir hefyd pwyslais a rhannu gwersi dysgwyd. Mae sawl ffilm wedi ei wneud o gynlluniau a mae rhain i weld ar Facebook a Youtube.

### **Proses Ymgeisio Agored (Cymunedau Creadigol)**

Hyd yma mae pwyslais wedi bod ar weithredu cynlluniau yn uniongyrchol yn hytrach na trosglwyddo arian i gyrrff neu grwpiau eraill h.y. grantiau. Roedd y ffordd yma o weithredu yn cydfynd a methodoleg LEADER a chyfarwyddyd gan Llywodraeth Cymru. Dros y 3 mlynedd diwethaf mae rhai grwpiau LEADER yng Nghymru wedi gweithredu'r cynllun fel grant a mae'n fwriad gennym glustnodi lleiafswm o £250,000 ar gyfer y math yma o ymyraeth.

Byddwn yn clustnodi £50,000 yn erbyn pob thema er mwyn i grwpiau ymgeisio admano. Bydd gofyn i'r grwpiau cyfarfod a gofynion LEADER a cyd fynd gyda



strategaeth datblygu lleol. Byddwn hefyd yn disgwyl iddynt **cydfynd a cynllun corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn**. Gweler isod y math o geisiadau gall grwpiau neu gyrff gyflwyno:

<b>Thema</b>	<b>Cefnogaeth</b>
Defnydd ynni ar lefel gymunedol	Hyd at £5k er mwyn gosod offer monitro defnydd ynni mewn canolfannau cymunedol er mwyn lleuhau defnydd ynni.  Hyd at £5k er mwyn gosod offer arbed ynni mewn canolfannau cymunedol / hybiau cymunedol.
Gwasanaeth digidol	Hyd at £5k ar gyfer gosod neu prynu offer sydd yn lleuhau allgauedd ddigidol.
Allanoli gwasanaethau	Hyd at £5k ar gyfer astudiaeth dichonoldeb er mwyn addasu adeilad er mwyn darparu gwasanaethau ychwanegol gall fod yn "hwb cymunedol".  Hyd at £5k er mwyn archebu offer er mwyn cynnig gwasanaeth newydd a / neu creu incwm.
Ychwanegu gwerth at adnoddau	Cefnogaeth i bentrefi baratoi deunydd dehongli er mwyn hyrwyddo Môn fel cyrchfan gwyliau.
Datblygu cadwyni cyflenwi	Cefnogaeth i glystyrau paratoi deunydd hyrwyddo e.e. grwpiau crefft, grwpiau bwyd a diod.

21. **SICRHAU CYNALIADWYEDD – PROSIECTAU CYFALAF (dim ond y sefydliadau sy'n ymgeisio am gyllideb i gynorthwyo â phrosiectau cyfalaf sydd angen cwblhau'r rhan yma)**  
ENSURING SUSTAINABILITY – CAPITAL PROJECTS (only organisations that are applying for funding to assist with capital projects need to complete this section)
- Os gwelwch yn dda darparwch ragolwg llif arain referniw am y 3 mlynedd nesaf/oes y prosiect (pryn bynnag yw'r hiraf)**  
Please provide a revenue cash flow forecast for the next 3 years / lifetime of the project (whichever is the longer).
  - Fydd y prosiect yn bosibl heb gyllideb gan yr Ymddiriedolaeth (os ddim, pam ddim)?**  
Will the project be possible without the funding from the Trust (if not, why not)?
  - Oes unrhyw gyllidwyr arall wedi gosod unrhyw rhag-amodau mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn gellid rhyddhau y gyllideb? Os felly, sut bydd y sefydliad yn sicrhau eu bônt yn cydymffurfio â'r rhag-amodau ac yn eu cynnal?**  
Have any other funders set any pre-conditions which must be complied with before the funding is released? If so, how will the organisation ensure that any pre-conditions are complied with and maintained?

**4. Beth fyddai'r canlyniad i'r prosiect petaent ddim yn cydymffurfio â'r rhag-amodau?**

What would be the outcome for the project if the pre-conditions were not complied with?

**22. SICRHAU CYNALIADWYEDD – PROSIECTAU REFENIW (dim ond y sefydliadau sy'n ymgeisio am gyllideb fel cyfraniad tuag at gostau refeniw prosiect neu sefydliad sydd angen cwlhau'r rhan yma)**

ENSURING SUSTAINABILITY – REVENUE PROJECTS (only organisations that are applying for funding as a contribution to the revenue costs of a project or organisation need to complete this section)

**1. Os gwelwch yn dda darparwch ragolwg llif arain refeniw am y 3 mlynedd nesaf/oes y prosiect (pryn bynnag yw'r hiraf)**

Please provide a revenue cash flow forecast for the next 3 years / lifetime of the project (whichever is the longer).

Mae cynllun LEADER yn rhedeg hyd at Mawrth 2021 ond mae'n fwriad gennym ail broffilio hyd at Rhagfyr 2022. Rydym wedi darparu gopi electroneg o'r proffil diweddaraf ar gyfer y cynllun.

**2. Sut mae'r sefydliad yn bwriadu parhau â'r gwasanaeth/prosiect heb grant yr Ymddiriedolaeth y flwyddyn nesaf? Bydd unrhyw newidiadau yn arwain at ostyngiad yn y gwasanaeth i drigolion Ynys Môn?**

How is the organisation planning to continue with the service / project without the Trust grant next year? Will any changes result in a reduction in the service to the residents of Anglesey?

Mae holl gostau gweinyddol a rheolaethol LEADER wedi ei gefnogi gan arian UE a Llywodraeth Cymru. Mae angen 20% o arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau, sydd yn cynnwys swyddogion prosiect. Mae cyfraniad yr Ymddiriedolaeth yn hanfodol er mwyn gwireddu amcanion y cynllun yn unol â uchelgais y Grwp Gweithredu Lleol. Heb yr arian cyfatebol bydd rhaid newid pwyslais y gwaith a blaenoriaethu grwpiau sydd yn medru cyfrannu, dros rhai ble mae'r angen fwyaf.

**3. Bydd colli'r gyllideb grant y flwyddyn nesaf yn arwain at golli swyddi – os felly, faint? Beth yw'r costau diswyddo tebygol sy'n gysylltiedig â'r colli swyddi?**

Will the loss of grant funding next year result in the loss of any jobs – if so, how many? What is the likely redundancy costs associated with the loss of jobs?

Mae'r 4 swyddog prosiect sy'n gwireddu'n cynllun ar gytundebau parhaol a wedi gweithio i'r cwmni ers rhai blynyddoedd. Nid yw eu cyflogaeth yn llwyr ddibynol ar grant yr Ymddiriedolaeth a mae ganddynt sicrwydd cyflogaeth hyd at 2021. Yn amlwg mae goblygiadau costau diswyddo yn ystyriaeth i Menter Môn ac un mae'r Bwrdd yn monitro yn barhaol.

**23. MESUR LLWYDDIANT  
MEASURING SUCCESS**

**1. Pa feini prawf/canlyniadau llwyddiant sydd wedi cael eu gosod ar gyfer y prosiect?**

What success criteria / outcomes have been set for the project?

Mae allbynnau ar gyfer y cynllun wedi ei darparu eisoes a mae'r swyddogion yn casglu tystiolaeth wrth eu cyrraedd. Mae cymunedau Ynys Môn yn gwynebu cyfnod heriol a mae toriadau arian cyhoeddus yn golygu fod angen addasu a ymateb yn gyflym. Rydym yn barod ac yn awyddus i drafod gyda'r Ymddiriedolaeth er mwyn adnabod gweithgareddau neu cynlluniau penodol dylid gwireddu er budd trigolion Ynys Môn.

**2. Faint of amser gymerith i gyflawni'r meini prawf / canlyniadau llwyddiant?**

How long will it take for the success criteria / outcomes to be achieved?

Mae LEADER yn rhedeg hyd at Mawrth 2021 a mae bwriad ail broffilio hyd at Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad cynydd yn darparu gwybodaeth ar y math o weithgareddau a rydym yn ei weithredu, a mae hefyd bwriad sefydlu cynllun "Cymunedu Creadigol" fydd yn darparu cymorth uniongyrchol i grwpiau.

**3. Sut mesurir y meini prawf / canlyniadau llwyddiant?**

How will the success criteria / outcomes be measured?

Bydd cynlluniau yn arwain at allbynnau, a byddwn yn darparu tystiolaeth i'w cefnogi.

**4. Pa gamau fyddai'r sefydliad yn ystyried petai'r perfformiad gwirioneddol yn disgyn yn is na'r meini prawf llwyddiant a osodwyd neu petai'r canlyniadau dymunedig ddim yn cael eu cyflawni?**

What action would the organisation consider if the actual performance fell below the success criteria set or that the desired outcomes were not achieved?

Mae gofyn monitro perfformiad yn erbyn gwariant ac allbynnau yn gyson a bydd unrhyw tan berfformiad yn cael adnabod yn fuan. Os bydd y cynllun yn tanberfformio bydd gofyn adrodd i WEFO ac i'r Grwp Gweithredu Lleol ar pa gamau byddwn yn ei gymeryd i ddatrys y sefyllfa. Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth i'r Ymddiriedolaeth fel rhan o'r broses adrodd.

**24. CERRIG MILLTIR Y PROSIECT  
PROJECT MILESTONES**

**Rhestrwch cerrig milltir y prosiect y byddwch yn ei ddefnydio i fesur cyflawniad eich prosiect yn ei erbyn.**

Please list the project milestones that you will measure your project delivery against.

Rydym wedi darparu allbynnau disgwylidig ar gyfer yr holl gynllun, ond rydym yn disgwyl gor gyrraedd rhain. Mae gofyn paratoi cais manwl ar gyfer pob cynllun sydd yn cynnwys cerrig milltir penodol o fewn amserlen. Mae'r ceisiadau yma yn derbyn cymeradwyaeth gan y Grwp Gweithredu Lleol. Nid oes modd rhoi cerrig milltir ar gyfer y Cynllun LEADER yn ei gyfanrwydd.

Mae'n ofynnol cyflwyno adroddiadau chwarterol i Llywodraeth Cymru pob chwarter sydd yn cynnwys y canlynol:

- Allbynnau
- Adroddiad ysgrifenedig ar gynlluniau
- Gwariant yn erbyn proffil.

Bydd yr adroddiadau yma yn cael ei cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth a Chyngor Sir Ynys Môn ar yr un pryd.

**GELLIR YCHWANEGU ISOD UNRHYW WYBODAETH YCHWANEGOL YNGLYN Æ'CH CAIS.**  
YOU CAN NOTE BELOW ANY ADDITIONAL INFORMATION ABOUT YOUR APPLICATION.

Mae hwn yn gais ar gyfer £191,438 fydd yn dod a chyfanswm cyfraniad Ymddirieleolaeth Elusennol Ynys Môn (os bydd yn llwyddo) i £521,438. Cyfanswm gwerth yr holl gynllun yw **£3,302,250**.

Atodaf adroddiad ar gynlluniau sydd wedi eu cwblhau neu yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Ymysg y cynlluniau sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yw:

- Cynllun i dreialu **technoleg ddigidol mewn cartrefu** er mwyn caniatu i bobl byw yn annibynnol am hirach.
- Cynllun i dreialu technoleg **TV White Space** sydd yn fodd o ddarparu band eang cyflym mewn ardaloedd elwir yn 'not spots'.
- Cynllun '**Teli Môn**' fydd yn sefydlu teledu cymunedol ar lein er mwyn darparu cyfrwng newydd i ddarparu newyddion cymunedol.
- Cynllun '**Sinema Môn**' fydd yn darparu offer symudol fydd yn cael ei ddefnyddio mewn canolfannau cymunedol.
- **Cynllun arbed ynni cymunedol** mewn pentref fydd yn treialu gwahanol dechnoleg arbed ynni mewn un ardal.
- **Cynllun marchnadoedd Môn** fydd yn darparu cymorth i farchnadoedd yr Ynys.

Yn ychwanegol hoffwn amlygu y pwyntiau canlynol:

- Mae arian YEYM yn cyfrannu 20% at gostau y cynlluniau sydd yn cynnwys cyflogau 4 o Swyddogion Prosiect, **ond nid at gostau craidd Menter Môn**.
- Mae **Swyddogion Prosiect** yn cydweithio gyda chymunedau a grwpiau i baratoi ceisiadau grant sylweddol. Mae rhain yn ychwanegol i arian LEADER a mae'r manylion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Os bydd y cais yn llwyddo byddwn yn medru creu '**Cronfa Cymunedau Creadigol**' gwerth £250,000 fydd yn cydfynd gyda amcanion Cynllun Corfforaethol Ynys Môn.
- Mae'r cynllun yn cael ei reoli gan Grwp Gweithredu Lleol gyda 20 cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol, preifat a cyhoeddus.
- Bydd y cynllun yn rhedeg tan o leiaf mis Mawrth 2021 ond y bwriad yw ail broffilio tan mis Rhagfyr yr un flwyddyn.

Mae LEADER yn gynllun pwysig sydd wedi caniatu i Menter Môn wireddu amrediad eang o gynlluniau ers 1995. Mae hefyd wedi caniatu i ni adnabod a datblygu cyfleoedd eraill tu draw i LEADER. Er enghraifft cychwynnodd cynllun Ynni Môr Morlais fel astudiaeth LEADER yn 2013, a mae hwnnw bellach yn gynllun £6 miliwn gall arwain at ddiwydiant ynni llanw ar Ynys Môn. Ymysg cynlluniau eraill cafodd ei sbarduno trwy LEADER oedd llwybr arfordirol Ynys Môn, cynllun y Wiwer Goch a'r Deyrnas Gopr.

**Yr wyf yn datgan fod yr holl fanylion a roddir uchod yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth.**

I declare that the information given above is, to the best of my knowledge, true and correct.

**Llofnod / Signature** \_\_\_\_\_ **Dyddiad / Date** \_\_\_\_\_

**OS GWELWCH YN DDA CWBLHEWCH Y RHESTR WIRO YNGHLWM I SICRHAU FOD EICH CAIS YN GYFLAWN**

**PLEASE COMPLETE THE ENCLOSED CHECKLIST TO ENSURE YOUR APPLICATION IS COMPLETE**

**NODIADAU / NOTES**

- a) **Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen sydd yn berthnasol neu ni fydd eich cais yn cael ystyriaeth.**  
Please complete all relevant parts of the form or your application will not be considered.
- b) **Bydd datganiad ffug neu gamarweiniol yn effeithio ar y broses o dalu unrhyw gymorth a roddir.**  
Any false or misleading information will affect payment of any financial assistance made.
- c) **Pe rhoddid cymorth ariannol i'ch mudiad am waith adeiladu neu i brynu offer, ni fydd yr arian yn cael ei dalu hyd oni archwilir y gwaith neu'r offer a/neu hyd oni dderbynnir yr anfonebau a'r derbyniadau perthnasol.**  
Should any financial assistance be made to your organisation for building work or purchase of equipment, payment will not be made until the work or equipment is inspected and/or relevant invoices and receipts are received.

\* \* \* \* \*

1. **DYLECH ANFON EICH CYFRIFON ARFEROL DIWEDDARAF WEDI EU HARCHWILIO NEU EU HADOLYGU YN ANNIBYNNOL. RHODDIR YSTYRIAETH I FAINT Y MUDIAD A HEFYD I'R SWM Y GOFYNNWYD AMDANO WRTH ASESU OS YW FFURF A CHYNNWYS Y CYFRIFON YN DDIGONOL.**  
YOUR LATEST USUAL AUDITED OR INDEPENDENTLY EXAMINED ACCOUNTS SHOULD BE PROVIDED. ACCOUNT WILL BE TAKEN OF THE SIZE OF THE ORGANISATION AND THE AMOUNT REQUESTED WHEN ASSESSING WHETHER THE FORM AND DETAIL OF THE ACCOUNTS PROVIDED ARE SUFFICIENT.
2. **NI DDERBYNNIR UNRHYW GAIS SY'N YMWNEUD Â GWAITH ADEILADU NEU BRYNU OFFER ONI BYDD O LEIAF DAU BRIS YN AMGAEEDIG.**  
NO APPLICATION INVOLVING STRUCTURAL WORK OR PURCHASE OF EQUIPMENT WILL BE ACCEPTED UNLESS ACCOMPANIED BY AT LEAST TWO ESTIMATES.
3. **RHAID DYCHWELYD Y FFURFLEN GAIS I'R CYFEIRIAD ISOD**  
THE FORM MUST BE RETURNED TO THE ADDRESS SHOWN BELOW.

**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / HEAD OF FUNCTION (RESOURCES)  
CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
SWYDDFA'R SIR / COUNTY OFFICES  
LLANGFNI  
YNYS MÔN  
LL77 7TW**

This page is intentionally left blank

<b>YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN</b>	
<b>Pwyllgor :</b>	<b>Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>24 Ionawr 2018</b>
<b>Teitl yr Adroddiad :</b>	<b>Grant Caru Amlwch</b>
<b>Pwrpas yr Adroddiad :</b>	<b>I gytuno ar newid i delerau dyfarnu Grant</b>
<b>Adroddiad Gan :</b>	<b>Trysorydd - Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn</b>
<b>Gweithrediad :</b>	<b>Penderfynu a ddylid cadarnhau'r dyfarniad grant i Grŵp Cymunedol Amlwch, er bod tymor y Lês ond am 5 mlynedd</b>

Ar 12 Gorffennaf 2017, penderfynodd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddyrannu £4,200 i Grŵp Cymunedol Amlwch ar gyfer datblygu darn o dir ar gyfer rhandiroedd. Roedd y dyfarniad grant yn amodol ar dderbyn dyfynbrisiau a phrawf o berchnogaeth neu brydles ar y tir.

Mae Adran 2.1 paragraff (c) o'r amodau ar gyfer dosbarthu grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn datgan 'Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas / corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sydd o leiaf 21 mlynedd. Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol. Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth'.

Cynigwyd darn o dir i Grŵp Cymunedol Amlwch gan Gyngor Sir Ynys Môn, fodd bynnag, yn dilyn ymchwiliad pellach, mae'r Cyngor Tref yn credu y gallai fod yn dir llygredig. Gan eu bod yn bwriadu tyfu llysiau a ffrwythau yna, penderfynwyd nad oedd y safle'n addas. Yn ddiweddarach, daeth y Grŵp o hyd i dir preifat y mae'r perchennog yn barod ei brydlesu i'r Grŵp. Byddai'r tir yn cael ei brydlesu i'r Grŵp am daliad blynyddol isel ond mae'r trefeddiannwr ond yn barod i gynnig prydles cychwynol am 5 mlynedd, er gall y cyfnod yma gael ei ymestyn wedi hynny.

#### **PENDERFYNIAD SYDD EI ANGEN**

I ddyfranu grant o £4,200 i Grŵp Cymunedol Amlwch, fel a gafodd ei ddyrannu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ar 12 Gorffennaf 2017, er na fydd tymor y lês ond am 5 mlynedd yn unig a dim yr 21 mlynedd a nodir o fewn amodau'r grant.

**R MARC JONES**  
**TRYSORYDD –**  
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

**17 IONAWR 2018**

This page is intentionally left blank



# DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

**GRANT MAWR – RHEILFFORDD GANOLOG MÔN CYF. /  
LARGE GRANT – ANGLESEY CENTRAL RAILWAY LTD.**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD  
PUBLIC INTEREST TEST**

Paragraff(au) Paragraph(s) 14	Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972
Y PRAWF – THE TEST	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as: -</p> <p>Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei ' cronfeydd yn cael eu defnyddio.</p> <p>The Trust is open and transparent about how its' funds are being used.</p>	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is: -</p> <p>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif.</p> <p>The attached report contains commercially sensitive information.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/<del>Hai o bwys</del> na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilëwch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/<del>does not outweigh</del> the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

## PRAWF BUDD Y CYHOEDD PUBLIC INTEREST TEST

Paragraff(au) Paragraph(s) 14	Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972
Y PRAWF – THE TEST	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as: -</p> <p>Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei ' cronfeydd yn cael eu defnyddio.</p> <p>The Trust is open and transparent about how its' funds are being used.</p>	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is: -</p> <p>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitive.</p> <p>The attached report contains commercially sensitive information.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/<del>Hai o bwys</del> na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilêwch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/<del>does not outweigh</del> the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank